PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 459 | Mai 2023



Pencampwr y marathons t.19

Enillydd Cadair Penrhyn 2023 t.12





Charlie – Pencampwr beicio mynydd t.7

# Enillwyr Eisteddfod Penrhyn-coch



Llefaru blwyddyn 5-6: 1 Jac 2 Harrison 3 Llinos



Unawd blwyddyn 5-6: 3 Harrison ac Anwen 2 Rhys 1 Twm

## Cystadlaethau cartref

**Cadair**: Morgan Owen, Rhydyfelin
**Englyn**: Vernon Jones, Bow Street
**Telyneg**: Vernon Jones, Bow Street
**Cerdd benrhydd**: Y Parchg Judith Morris, Penrhyn-coch
**Brawddeg**: Aled Evans, Trisant
**Stori fer**: Anwen Pierce, Bow Street
**Erthygl**: Carys Briddon, Tre'r-ddôl
**Adolygiad**: Dim cystadlu
**Limerig**: Myfanwy Roberts, Llanrwst
**Tlws yr Ifanc (Llenyddol)**: Elin Pierce Williams, Bow Street



Unawd blwyddyn 3-4: 3 Bella 1 Kaedan 2 Poppy



Llefaru blwyddyn 3-4: 3 Kai 1 Iona 2 Mabli 3 Talys

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**


**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG

# dyddiadur

**RHIFYN MEHEFIN: Dyddiad cau** Mehefin 9; **Dyddiad cyhoeddi** Mehefin 21

**MAI 18** Nos Iau Cyfarfod blynyddol Cyngor Cymuned Melindwr yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**MAI 19-21** Dyddiau Gwener i Sul Twrnament Eric ac Arthur Thomas ac Gae Baker, Penrhyn-coch Cystadleuaeth newydd sbon i'w chwarae o dan y llif oleuadau ar y nos Wener, grŵp oedran 16-19 oed.

**MAI 21** Dydd Sul Proms yn y Cae gydag amryw o westeion yn perfformio. Te prynhawn ar gael yng nghae Cymuned Goginan am 3.00

**MAI 23** Dydd Mawrth Arad Goch yn cyflwyno Taith Jemima yng Nghanolfan y Celfyddydau am 13.00

**MAI 24** Nos Fercher Frân Wen a Theatr y Sherman yn cyflwyno Imrie yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MEHEFIN 10** Nos Sadwrn Noson i ddathlu bywyd John Davies yn y Neuadd Fawr.

**MEHEFIN 10** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yng Ngelli Angharad.
Dawns - Bryn Fôn a'r Band a Dafydd Pantrod a'r band am 7.00. £10.00

**MEHEFIN 17** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i Ddyffryn Aman dan arweiniad Alun Wyn Bevan. Manylion gan Ceris Gruffudd

**MEHEFIN 20** Nos Fawrth Arddangosfa gan Leanne Williams Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00

**MEHEFIN 21** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**GORFFENNAF 4** Dydd Mawrth Cyngerdd Côr Cymry Gogledd America yn Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth am 12.30

# Tarw Basan

Diwedd Ebrill soniodd Gerallt Pennant ar 'Galwad cynnar' fod Morris Evans, Dolanog wedi defnyddio y geiriau 'tarw Basan' oedd yn ddywediad dieithr iddo.

Cysylltodd Erwyd Howells i egluro mai un o'r gwledydd sydd yn cwrdd â gwlad Canaan – gyda Mynydd Basan yn ei chanol. Mae cyfeiriadau at darw Basan mewn sawl lle yn yr Hen Destament gan gynnwys Salm 22, adnod 12. Dyfynnodd enghraifft arall am "Hwrdd deugorn, barrus fel na safai un bwystfil o'i flaen ac nid oedd dim achubai o'i law".

Yn ôl Erwyd defnyddid y dywediad 'fel hwrdd Basan' yng ngogledd Ceredigion wrth sôn am ddyn penderfynol, di-droi nôl.

Tybed faint o ddarllenwyr eraill *y Tincer* sydd yn gyfarwydd a'r dywediad?

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymdeithas Tirymynach** £600
**Cyngor Cymuned y Borth** £100

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2023

**£25** (Rhif 283) Nest Gwilym, Tregerddan, Bow Street
**£15** (Rhif 22) Mair England, Pant-y-glyn, Llandre
**£10** (Rhif 160) Ann James, Pen-banc, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar e-bost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi.

## Ymgeisio am le ar Academi Amaeth Cyswllt Ffermio 2023

Cyfle cyffrous arall sydd â chyfnod ymgeisio ar agor ar hyn o bryd yw'r Academi Amaeth. Oherwydd cyfnod digon di-fflach dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cyfyngiadau'r pandemic mae'r Academi yn dychwelyd ac yn cynnig cyfle i wneud cysylltiadau oes. Mae dau ddosbarth, sef Busnes ar Arloesedd a Rhaglen yr Ifanc (16-19 oed) yn cynnig sesiynau preswyl a teithiau tramor i'r Iseldiroedd ac i Ganada eleni! Bwriad yr Academi yw i feithrin ac ysbrydoli y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid, arloeswyr ac unigolion blaengar sydd am ddilyn gyrfa neu sefydlu busnes o fewn y sector amaeth yng Nghymru. Mae'r manylion a'r ffurflen gais ar wefan Cyswllt Ffermio ac mae'r cyfnod ymgesio ar agor tan y 26ain o Fai - does dim amser i oedi!

**Cysylltwch â ni**

- Ffoniwch ein Canolfan Wasanaeth ar 03456 000 813
- Ewch i'n gwefan llyw.cymru/cyswlltffermio

## 30 mlynedd yn ôl



Ar Ebrill 6ed cafodd y grŵp trafod llyfrau gyfle i gwrdd â William Owen, sef awdur y buont yn trafod ei lyfr yn un o'n sesiynau yn ystod y gaeaf. John a Mabel Rees, Dolau oedd yn croesawu'r grŵp i'w cartref y tro hwn.

Yn ei ddarlith dan y teitl 'Tawelu'r ysbrydion, trafododd William Owen yr ysgrif bortread fel ffurf lenyddol a dadansoddodd yr ysfa sydd ynom i edrych yn ôl ar oes a fu, ysfa sy'n gyffredin i nifer o ddiwylliannau. Dadleuodd mai nid sentimaleiddiwch oedd ysgrifennu am blentyndod ond rhannu profiadau dynoliaeth hefyd. Yna eglurodd ei gymhellion dros ysgrifennu *Y llanc nad yw mwy* sy'n un o dair cyfrol am ardal ei fagwraeth ym Môn.

Yn dilyn ei ddarlith cafodd aelodau'r grŵp gyfle i'w holi a chsfodd pob aelod gopi rhodd wedi ei llofnodi o'r gyfrol gyntaf. Paratowyd bwffet blasus ac anrhydeddus gan John a Mabel Rees gyda chymorth Mrs Tegwen Pryse, gwledd oedd yn goron ar noson gofiadwy. Edrycha'r grŵp ymlaen yn awr at yr hydref pan fyddant yn trafod chwe llyfr Cymraeg arall. (O'r *Tincer* Ebrill 1993)

## Geiriadur Llydaweg-Cymraeg

Bydd pawb sydd yn ymddiddori mewn ieithoedd Celtaidd yn cofio Rita Williams a oedd yn ddarlithydd Llydaweg ym Mhrifysgol Aberystwyth hyd iddi ymddeol. Pan oedd hi yn gweithio yno fe gyhoeddodd eiriadur Cymraeg-Llydaweg. Ar ol ymddeol penderfynodd y byddai yn dda o beth llunio Geiriadur Llydaweg-Cymnraeg a'i gyhoeddi a-rlein yn hytrach nag fel copi caled.

Cyn iddi farw yn 2018gofynnodd Rita i'm gwraig Kristina Roudaut, sicrhau y byddai'r geiriadur, a oedd fwy neu lai wedi'i orffen erbyn hynny, yn cael ei gyhoeddi ar-lein petai rhywbeth yn digwydd iddi.

Llwyddwyd i gael gafael ar y gwaith aruthrol yr oedd Rita wedi'i gwblhau trwy gysylltu a'i nai Gareth Walters. Mae Dyfrig Berry wedi cytuno i osod a chynnal y geiriadur ar-lein, ond bydd yna gostau. Hoffem ofyn i bobl sydd am gyfrannu i'r costau hynny anfon sieciau'n daladwy i Gwehydd i Gwehydd, 10 Lon y Nant, Dinbych LL16 4BE

Y linc i weld y geiriadur ar-lein yw https://bzh.cy,ru/

Yn gywir,
Derec Stockley a Kristina Roudaut.

YTincer@googlemail.com

# Y Borth

**Libanus 1877 yn Agor Ail Sgrin**

Mae datblygiadau cyffrous ar droed yn Sinema a Bwyty Libanus 1877 yn Y Borth. Mae'r perchnogion Grug a Peter yn agor ail sgrin yn yr adeilad, a arferai fod yn gartref i gapel Methodistaidd Y Gerlan ar y Stryd Fawr.

Bydd 24 o seddi moethus yn 'Sgrin 2' a fydd yn agor ym mis Mehefin, mewn da bryd ar gyfer gwyliau'r haf.

Mae gwaith ar greu'r sgrin ychwanegol newydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a hynny ar y llawr cyntaf, drws nesaf i far Y Festri.

Y bwriad yw ailagor y bwyty ar y llawr cyntaf maes o law.

**Cylchgrawn y Carnifal**

Mae cylchgrawn y carnifal ar werth unwaith eto yn siop y Premier a thafarn y Vic. Yn ogystal â nodi holl weithgareddau wythnos y carnifal, mae hefyd yn llawn lluniau ac erthyglau diddorol am yr ardal. Mae'n costio £1 yn unig ac mae unrhyw elw o'r gwerthiant a'r hysbysebion yn mynd at goffrau'r carnifal i'w rhannu rhwng achosion da lleol.





Helen Williams, Yvette Ellis-Clark, y Cynghorydd Paul Hinge (Pencampwr y Lluoedd Arfog Ceredigion), yr Is-gyrnol Warren Coaker, Mark Williams, Ray Quant MBE.

**Lleng Brydeinig Y Borth**

Cynhaliodd Cangen Y Borth y Lleng Prydeinig Frenhinol eu cinio ANZAC blynyddol yn Llety Parc Aberystwyth a hynny am y tro cyntaf ers 2019 oherwydd pandemig COVID-19.

Y siaradwr gwadd oedd yr Is-gyrnol Warren Coaker o Uchel Gomisiwn Awstralia, a darllenwyd neges gan Uchel Gomisiwn Seland Newydd gan Mrs Pip Davies.

Cadeirydd y Gangen Ray Quant oedd yn llywyddu'r cinio gan groesawu gwesteion o'r Borth, Aberystwyth a Machynlleth.

Yn ei anerchiad fe dalodd Llywydd y Gangen a'r Rhanbarth, Mark Williams, deyrnged i'r cysylltiadau hir rhwng Cymru ac Awstralia a Seland Newydd, gan atgoffa'r gynulleidfa o aberth yr Anzac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Ffair Elusennau**

Cofiwch am y Ffair Elusennau sydd i'w chynnal ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc 29 Mai am y tro cyntaf ers y pandemig yn Neuadd Goffa'r Borth. Os oes elusennau neu grwpiau lleol yn dymuno cael stondin, dylid cysylltu'n ddiymdroi â Joy Cook ar 01970 871649 neu freroyjoy@btinternet.com.

**Dim Cŵn**

Mae'r gwaharddiad blynyddol ar gŵn mewn grym ers 1 Mai ar y traeth rhwng y clogwyn a'r clwb golff. Bydd y gwaharddiad yn cael ei godi ar 1 Hydref.

## Digwyddiadau Ynys-las

Mae'r cwtiaid torchog yn nythu unwaith yn rhagor a rhannau o dwyni Ynys-las wedi'u corlannu er mwyn diogelu'r wyau a'r cywion ddaw maes o law. Mae wardeniaid Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las yn trefnu rhaglen o weithgareddau gydol y flwyddyn a dyma beth sydd ar y gweill ar gyfer yr wythnosau nesaf. Mae manylion pellach ar eu tudalen Facebook.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.05.2023 | Paentiao Mandala | 10:30-16:00 | £30 |
| 27.05.2023 | Taith Gerdded Tegeirian | | £5 |
| 28.05.2023 | Glanhau'r Traeth | 11:00-13:00 | Am ddim |
| 14.06.2023 | Taith Gerdded Tegeirian | | £5 |
| 18.06.2023 | Glanhau'r Traeth | 11:00-13:00 | Am ddim |
| 24.06.2023 | Taith Gerdded Tegeirian | | £5 |
| 12.07.2023 | Taith Tywys Pili Palas | 10:30-12:30 | £5 |

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

## Gan Catrin Pugh-Jones



**Adran y Menywod**

*Cwpan Morris*

Llongyfarchiadau i Clare Jones ar ennill Cwpan Morris. Cystadleuaeth fedal yw hon a dyma'r canlyniadau:

1af Clare Jones – 73 net
2ail Jane Raw Rees – 74 net
3ydd Kay Thomas – 79 net

*Gwobr Her Golf Cymru*

Yn ennill ac yn mynd ymlaen at y rownd nesa y mae:

Anna Hubbard – Adran 1
Mair Jenkins – Adran 2

*Gobled Wilding*

Ruth Morris ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth Stableford hon. Dyma'r canlyniadau'n llawn:

1af Ruth Morris – 37 pwynt
2ail Debbie Jones – 36 pwynt
3ydd Barbara Reece – 33 pwynt

*Gêm Gynghrair*

Ar ddydd Gwener 21 Ebrill, croesawyd Menywod Aberdyfi ar gyfer ein Gêm Cynghrair gyntaf y tymor. Roedd yn ornest gystadleuon mewn amodau digon heriol. Ennill fu hanes Jane Raw Rees a Kathy Price o glwb y Borth yn erbyn Judy Booch a Judith James o Aberdyfi. Colli fu hanes Karen Evans a Catrin Pugh Jones yn erbyn Pat Broadbent a Dawn Cannon; a Kay Thomas a Barbara Flanagan yn hanneri yn erbyn Sheila Edwards a Pat Tedders. Canlyniad y gêm felly yn hanneri.

*Twll mewn 1!*

Llongyfarchiadau mawr i Barbara Reece am lwyddo i gwblhau twll 14 mewn 1 ergyd tra'n chwarae cystadleuaeth tîm. Tipyn o gamp a thipyn o ddathlu nôl yn y Clwb!

**Golffwyr Newydd**

Dydd Sul 23 Ebrill chwaraewyd cystadleuaeth Texas Scramble dros 9 twll ar gyfer y chwaraewyr newydd a rhai o'r mentoriaid. Grŵp o chwaraewyr awyddus a chymdeithasol. Diolch am eu cwmni. Yr enillwyr oedd:

1af – Rhodri Edwards, Delyth Price Jones & Catrin Pugh Jones (gros 41)
2ail – Ceri James ac Angharad Basnett (gros 42)
3ydd – Haf ap Robert, Ruth Bourne a Barbara Flanagan (gros 45).
Da iawn bawb!

# Newyddion o'r gorffennol

Mae **Sue Dalton o'r Borth** wedi bod yn pori unwaith yn rhagor yn archifau papurau newydd y Llyfrgell Genedlaethol i ganfod beth oedd gan bapurau'r gorffennol i'w ddweud am fywyd yn y pentref. Dyma flas o'r hyn oedd yn hawlio'r penawdau yn lleol yn ystod y 19eg ganrif, yn bennaf o'r *Cambrian News* a'r *Aberystwyth Observer.*

**1843**

Ym mis Ionawr, daeth cyrff pedwar dyn ifanc o Aberystwyth i'r lan yn y Borth. Roedden nhw wedi boddi mewn tywydd stormus wrth geisio achub llong 'The Phoebe' o Gasnewydd oedd wedi taro Sarn y Bwch oddi ar Aberdyfi.

**1853**

Ym mis Chwefror, cafodd dau ddyn o'r Borth ddirwy o £10 yr un (tipyn o arian ar y pryd!) o dan y Ddeddf Drylliadau ac Achub am beidio â datgelu i'r awdurdodau eu bod wedi dod o hyd I dau ffircyn o fenyn ar y traeth. Ym mis Mai, collwyd dwy long fechan o'r Borth – y 'Catherine' a'r 'Favourite' ar y môr a chafodd sgwner o'r Borth, y 'Laura Elizabeth', ei tharo gan long ager ar Ynys Manaw. Bu farw unarddeg o ddynion lleol.

**1873**

Ym mis Mai cafodd gŵr o'r Borth ei wneud yn gapten ar sgwner 180 tunnell newydd, y 'Sophia and Emily' a adeiladwyd yn Aberystwyth ar gyfer masnachu yn nyfroedd y Baltig a Môr y Canoldir. Syrthiodd bachgen bach o'r Borth oedd yn chwilio am nythod adar oddi ar y clogwyni ac fe'i hanafwyd yn ddifrifol. Fe ddigwyddodd y ddamwain yn fuan ar ôl claddu tad y bachgen, oedd yn gapten llong.

**1883**

Ym mis Chwefror, cafwyd stormydd mawr. Achoswyd llifogydd mewn nifer o dai, difrodwyd toeau, gorchuddiwyd y ffordd â cherrig, a chafodd adeiladau eu sigo. Cafodd y ffordd rhwng y clogwyn a'r pentref isaf ei olchi ymaith. Ym mis Ebrill, bu farw morwr 17 oed o'r Borth o'r dwymyn ddu (teiffoid) oddi ar arfordir Affrica ac ym mis Mehefin, boddodd un o forwyr y Borth yn noc Abertawe gan na allai gyrraedd y rhaff a daflwyd ato. Ym mis Medi, lladdwyd morwr o'r Borth yn y Cefnfor Deheuol rhwng Seland Newydd a Chile pan ddisgynnodd 54 troedfedd oddi ar yr hwyl uchaf ar y dec.

**1893**

Ym mis Mehefin, cafodd myfyriwr coleg ei achub rhwng Clarach a Wallog gan aelodau'r clwb cychod lleol oedd ar eu ffordd yn ôl o'r Borth.



## Llandre

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Marianne Jones Powell gafodd ddamwain fore Gwener Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch ac sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais.

**Menter newydd**
Dymuniadau gorau i Ian, Leri a Isla Bunton sydd wedi cychwyn ar fenter newydd – sef rhedeg caffi yr Woodlands ym Mhontarfynach.

**Llwyddiant Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Gruffydd Sion am ennill Tlws Coffa Parhaol Goronwy Evans sydd yn rhoddedig gan Seindorf Arian Aberystwyth i'r chwaraewr Pres gorau yn y cystadlaethau offerynnol yn Eisteddfod Pantyfedwen; hefyd i Miri Llwyd ar ddod yn gydradd ail yn yr unawd o sioe gerdd, opera ysgafn neu ffilm i rai dan 19 oed yn yr un Eisteddfod.



Bydd Miri hefyd yn cynrychioli Ceredigion yn Llanymddyfri yn y gystadleuaeth. Yna gwelir hi yn cyfarfod un o'i harwyr – yr actor Callum Scott Howells fu'n cymryd rhan yn nrama newydd y dramodydd o Gymro Gary Owen – Romeo and Julie yn Theatr y Sherman yn ddiweddar.



**Pen blwydd priodas ddiamwnt**
Llongyfarchiadau i Gwynfryn ac Eryl Evans, Y Ddôl, ar ddathlu pen blwydd priodas ddiamwnt (60 mlynedd) yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Wini Davies, Nant y Deri, ar farwolaeth ei mam yn Nhywyn.



Cerddwyr Rhydypennau yn Llanfihangel Genau'r-glyn.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ebrill 20. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Roedd yna ymddiheuriadau oddi wrth 4 cynghorwr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2023 fel rhai cywir.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw'r cyngor, sef cais A230177. Nid oedd gwrthwynebiad I'r cais

Mae y Cyngor Cymuned yn awyddus i ddatblygu safle gwe a hysbysfwrdd digidol newydd ac maent angen cymorth a chyngor gan berson a phrofiad yn y maes hyn. Os oes gan rywun ddidordeb ac am gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r clerc trwy ebost – **cyngormelindwrcouncil@gmail.com**

Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar nos Iau Mai 18 am 7.30 y.h. yn Neuadd Capel Bangor. Croeso cynnes i bawb, a bydd y cyfarfod misol yn dilyn.

## Dôl-y-bont

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr a pen blwydd hapus iawn i Mrs. Primrose Watkin, Pen-y-bont, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 90 ddiwedd mis Ebrill.

**Cynllunio clawr**
Da gweld clawr gynlluniwyd gan Thomas Davies i gyfrol Ewan Smith, *Hen ferchetan* (Y Lolfa) – nofel fer i ddysgwyr gan ddysgwr.




Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV

- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar

APPROVED CONTRACTOR

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Goginan

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Huw a Jane Jones, Hafan, Cwmbrwyno ar farwolaeth chwaer Huw – sef Elizabeth Davies ym Mhlas Cwmcynfelin yn ddiweddar.

**Pen blwydd atbennig**
Dymuniadau gorau i Anne Mason Davies, Rhiwfelen, ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.





**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Charlie Baxter – ŵyr Colin a June Baxter, Oakdale ar ei lwyddiant yn y maes Beicio Mynydd. Fe ddaeth yn ail dros Brydain mewn cystadleuaeth dan 14 ym mis Ebrill a nawr fe fydd yn teithio i'r Alban ddwy waith ac yn cystadlu mewn tair cystadleuaeth arall yng Nghymru. Mae Charlie yn ddisgybl yn Ysgol Penweddig ac yn byw yn Llangwyryfon. Pob lwc iddo i'r dyfodol.


Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website  Trefeurig8
whhowells@gmail.com



SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod


## Colofn **Elin Jones AS**



Mae'r gaeaf eleni wedi teimlo'n hir, ond mae'r gwanwyn nawr yn golygu fod mwy o gyfle i fynd o gwmpas i fwynhau amrywiol ddigwyddiadau yng Ngheredigion.

Rwy'n parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir a chwmnïau bysus lleol er mwyn ceisio sicrhau gwell cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus yn ein mannau gwledig. Heb os, mae'r sector yn parhau i wynebu ansicrwydd, ond mae pawb yn gweithio'n ddiwyd i geisio gwella'r rhwydwaith. Mae'n braf gweld bysus newydd trydanol ar hyd llwybrau'r T1, ac rydym wedi croesawu gwasanaeth newydd y T1C o Aberystwyth i Gaerdydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar safle Ysbyty newydd Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio. Maent yn nodi tri safle posibl yn ne ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Daf; Tŷ Newydd, Hendy-gwyn ar Daf; a Sanclêr. Bydd yr ymgynghoriad ar agor hyd ddydd Iau 19 o Fai 2023, ac mae modd i chi roi eich barn drwy holiaduron arlein, ac mae cyfres o ddigwyddiadau wedi eu cyhoeddi. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan.

Fydd nifer ohonoch sy'n byw mewn ardaloedd poblog, o bosib wedi sylwi ar hysbysiadau am arwyddion yn eich hysbysu o gynigion i newid neu gyflwyno mannau 20mya ar nifer o ffyrdd cyfyngedig. Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau ymhob pentref sydd ag iddynt gyfyngiad cyflymder o 30mya ar hyn o bryd. Y bwriad yw i rhain newid o 30 i 20mya. Disgwylir i'r cyfyngiadau fod yn weithredol o fis Medi 2023 ymlaen. Mae mwy o fanylion am yr holl newidiadau a gynigir ar wefan y Cyngor Sir. Dwi hefyd yn parhau i dynnu sylw Gweinidog Llywodraeth Cymru dros drafnidiaeth at sawl man arall yn y sir sydd ddim yn rhan o'r ymgynghoriad yma, ble mae angen mwy o fesurau i wella diogelwch y ffordd.

Edrychwn ymlaen at yr haf, a gobeithio fyddwch chi'n cael cyfle i fwynhau'r heulwen braf gyda theulu a ffrindiau.

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Mai*
21 2.30 Yr Athro Jane Aaron ym Methel
28 2.30 Rhidian Griffiths

*Mehefin*
4 I'w drefnu
18 2.30 Hywel Davies ym Methel
25 2.30 Peter

**Clwb Sul:**
Cyfarfod yn Horeb 10.30
*Mai*
21
28

*Mehefin*
18
25

**Cymorth Cristnogol**
Mae casgliad 2023 Penrhyn-coch at Gymorth Cristnogol yn un drwy'r we – ers 2020 a 2021 nid oes casgliad o ddrws i ddrws. Os ydych am gyfrannu i Gymorth Cristnogol drwy gasgliad Penrhyn-coch a ddim am wneud ar y we gallwch anfon siec yn daladwy i 'Cymorth Cristnogol' at Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3HE neu Eglwys St Ioan', d/o Y Ficerdy, Garth, Penrhyn-coch SY23 3EP. Gallwch holi am ffurflen rhodd gymorth os yw'n berthnasol. Gallwch hefyd roi trwy flychau casglu yn y Swyddfa Bost ac yn garej Tŷ Mawr.



Llan Llanast llwyddiannus gyda'r plant wedi gwneud dwy groes Y Pasg, un ar gyfer Sant Ioan a'r llall i Gapel Horeb.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Kevin a Llio Adams, Glyn Helyg, ar enedigaeth ŵyr ganol mis Ebrill. Ganwyd Adain Hedd, mab i Lea a Simon yn Crewe – brawd bach i'r efeilliaid Tabitha a Perena.

Llongyfarchiadau hefyd i Reian a Kelly Jones, Ger-y-llan, ar enedigaeth merch fach – Cadi; wyres i tad-cu a mam-gu – Gwyn a Jean Jones, Fferm Pen-cefn.

**Penodi i swydd**
Llongyfarchiadau i Meleri Jones, Glan Ceulan, ar gael ei phenodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Penweddig. Bydd Rhian Morgan yn camu lan i fod yn Bennaeth yr Ysgol.



Rhai o aelodau Clwb Sul Horeb yn y Gymanfa.



## Ennill cadair arall

Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris ar ennill cadair arall – yn Eisteddfod Mynachlog-ddu y tro yma. Y testun oedd Cerdd gaeth neu rydd (neu ddilyniant o gerddi) heb fod dros 100 llinell ar un o'r testunau canlynol: 1 Gaeaf 2 Yfory neu 3 Un wennol ni wna wanwyn a'r beirniad oedd Tudur Dylan Jones. Roedd y gerdd fuddugol yn ymwneud â straeon o'r Hen Destament. Rhoddwyd y gadair fach er cof am Elwyn a Maud Morris – rhieni Anne Morris oedd yn Llywydd yr Eisteddfod ac fe'i gwnaethpwyd gan ŵr Anne, Keith.
Dyma gywydd i'r enillydd gan y bardd lleol Wyn Owens

**I fardd y Gadair – Maenclochog 2023**
Dest draw o Bontardawe
I hedd y wlad, haeddi le
Ar lwyfan y gân a'r gerdd
Am byncio, dyma bencerdd
Nos Lun ein Preseli hardd,
Profa o'i naws fel prifardd.
Maenclochog, man enwog yw,
Goludog o le ydyw.
I ti ceir llecyn tawel
A daena falm dan y Fwêl.
Yn arena'r gwâr heno
Dy awr yw hon, daeth dy dro
I eistedd yn hedd yr Ŵyl,
Bro'r rhosydd yw dy breswyl.

**Wyn Owens**

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Ar ôl bwlch o dair blynedd oherwydd covid cynhaliwyd yr Eisteddfod eto pan gafwyd cystadlu brwd a safonol mewn awyrgylch hwyliog a chartrefol nos Wener 21 a Sadwrn 22 Ebrill. Eleni am y tro cyntaf, gan fod y ddwy ysgol wedi eu ffederaleiddio cafwyd disgyblion o Ysgol Pen-llwyn yn ogystal â Phenrhyn-coch a chafwyd neuadd lawn gydol y sesiwn.

Gwelwyd cystadleuwyr o ardal ehangach ar y pnawn Sadwrn yn yr adran cynradd. Er mai prin oedd y nifer cafwyd cystadleuwyr o safon a hynny ar bron pob cystadleuaeth yn ystod y noson. Roedd yn braf gweld cyfeillion o'r Wcrain yn mwynhau yn y gynulleidfa ar y ddeuddydd.

Y beirniaid eleni oedd: Nos Wener (Lleol): Cerdd – Bethan Ruth, Machynlleth. Llefaru: Carwyn Hawkins, Caerdydd. Dydd Sadwrn (Agored): Cerdd : Arfon Williams, Cwmtirmynach; Llefaru: Ian Lloyd Hughes, y Bala a Llên: Emyr Lewis, Aberystwyth. Cyfeiliwyd gan Lona Phillips, Abermagwr.

Yr Arweinyddion oedd Catryn Lawrence a Manon Reynolds (Dydd Gwener), Gregory Vearey-Roberts, Gwenno Morris, Llifon Ellis, Sara James a Sara Gibson.

Y llywyddion oedd Mark Roberts, Caerdydd (Matthew yn Pobol y Cwm), – nos Wener; Gill Saunders Jones, Llandre, pnawn Sadwrn a Lowri Guy, Caerdydd (nos Sadwrn). Diolchwn iddynt am eu rhoddion hael.

Swyddogion y pwyllgor yw: Cadeirydd: Marianne Jones-Powell; Ysgrifennydd : Ceris Gruffudd; Is-ysgrifennydd: Llio Adams; Trysoryddion: Eleri James ac Elin Haf Williams.

Yn anffodus wrth baratoi y Neuadd fore Gwener cafodd y Cadeirydd ddamwain a threuliodd gyfnod hir yn Ysbyty Bron-glais fel canlyniad lle cafodd driniaeth – gyrrwn ein dymuniadau gorau i Marianne Jones Powell.

Yn y cyfarfod nos tynnwyd sylw at ddarllenfa hardd gan y saer crefftus o Benrhyn-coch – Keith Morris (oedd hefyd wedi gwneud y gadair fach) gomisiynwyd gan Bwyllgor y Neuadd er cof am y cymwynaswr mawr Dei Rees Morgan fu farw yn 2019. Roedd yn Gadeirydd Neuadd y Penrhyn, yn eisteddfodwr brwd oedd yn cystadlu'n gyson ar yr adroddiad digri ac yn arwain yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Gellir gweld canlyniadau yr Eisteddfod ar wefanau Trefeurig a Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Roedd yn dda gallu croesawu Parti Llefaru Drudwns Aber a pharti o Rieni ac athrawon Penrhyn-coch a Phen-llwyn i gystadlu.

## Cyfarch y bardd 2023

Wedi'r cyfnod clo diderfyn
hyfryd yw gweld gŵyl ym Mhenrhyn,
a bod yma eto Steddfod
wedi'r egwyl o segurdod.

'Leni, nid oes dim i'n rhwystro
rhag mwynhau ias y cadeirio
a chael gweld bardd yn ei gadair
gyda'i awen ddilyffethair.

Tithau, ŵr o Ferthyr Tudful,
dwi'n siŵr y cei, 'rôl bod i'n hencil,
hwb i'th ddawn o hudo geiriau
a llond colaid o gadeiriau.

**Anwen Pierce**




**Morgan Owen**
**Gweler t.12**



**Ian Lloyd Hughes ac Arfon Williams.**



**Drudwns Aber**



**Gwenno Morris gyda'r ddarllenfa wnaed gan ei thad er cof am Dei Rees Morgan.**

**Emyr Lewis yn traddodi beirniadaeth y gadair**



# Ailwyllltio… Ie neu nage




Ailwyllltio. Gair sy'n corddi ffermwyr a pherchnogion tir. Term sy'n cynddeiriogi poblogaeth cefn gwlad Cymru. Syniad nad yw'n cael ei groesawu. Ry'n ni'n meddwl am ailwyllltio fel ymgais arall gan yr estroniaid i orchfygu ein gwlad a dwyn balchder y bobl. Ond, mewn gwirionedd, pa mor afrealistig yw'r posibilrwydd o ddychwelyd rhannau o dir gwyllt a gwledig Cymru yn ôl i fyd natur? A pham bod yr ymgyrch o blaid – ac yn erbyn – mor bwysig?

Un o'r 70,000 o rywogaethau cynhenid y Deyrnas Unedig yw'r draenog. Ar gyfartaledd, mae gan bob draenog chwe mil o bigau siâp gwelltyn; y gwaelodion yn lliw cnau cyll sy'n newid i'r lliw gwyn puraf ar eu pennau. Pan fydd yn cael ei fygwth, rholia'r draenog yn belen fach anrheiddiadwy, sy'n cadw ei elynion draw. Esblygodd y draenog i edrych yn union fel y mae heddiw bymtheg miliwn o flynyddoedd yn ôl, sy'n ei wneud yn un o famaliaid hynaf y blaned. Nid oedd dyn wedi esblygu o fod yn epa yn y cyfnod yna.

Ry'n ni – fodau dynol – yn un o'r rhywogaethau fwyaf llwyddiannus, fwyaf deallus mae'r bydysawd erioed wedi ei gweld. O ran maint ein cyrff, mae ein hymennydd yn anarferol o fawr, ac yn gyfrifol am fwy o gysylltiadau a phenderfyniadau ymenyddol nag unrhyw rywogaeth arall, er nad yw'r morfil glas yn bell ar ein holau. Trwy'r oesoedd, mae'r ddynoliaeth wedi mynd trwy cymaint o newidiadau; o'r Eifftiaid cynharaf, y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, trwy chwyldroadau o bob math; o ddyfeisio'r olwyn i ddyfeisio'r bwlb trydan, i anfon dyn i'r gofod. Ac mae'r draenog bach pigog, godidog a thrwynsmwt wedi cyd-fodoli gyda ni trwy'r cyfan. Haedda barch am hynny, does bosib.

Ac eto i gyd, rhaid rhyfeddu at gyraeddiadau'r ddynoliaeth, ac nid oes modd gwadu hynny.

Mewn ymchwiliad diweddar, datgelwyd mai biomas cyfredol mamaliaid gwyllt y tir yw ugain miliwn tunnell. Biomas pobl yw tri chant a hanner miliwn tunnell; dros ddeg gwaith yn fwy na biomas mamaliaid. Tri chant wyth deg miliwn tunnell yw biomas cyfredol da byw ar ffermydd ar draws y byd. Felly mae'r ddynoliaeth a'i heffaith yn perchnogi dros dau draean o dir y blaned, ac nid yw'n gynaladwy. Un o ganlyniadau hyn yw cynhesu byd-eang, sy'n effeithio ar bobl yn uniongyrchol.

Rhaid i ni beidio â bod yn hunanol. Ydych chi wedi clywed pa mor ddrychrynllyd o gyflym mae'r ffigyrau'n nodi difodiant rhywogaethau'r byd yn codi? Erbyn heddiw, mae un o bob pedwar mamal yn wynebu difodiant llwyr yn y degawd nesaf. Ac o ddychwelyd at y draenog y soniwyd amdano'n gynt, gwelwyd gostyngiad o naw deg saith y cant yn niferoedd y creaduriaid ers y 1950au. Nid yw rheoli glaswelltiroedd wedi helpu ein cyfaill trwynsmwt, ond mae ei ddiflaniad hefyd yn ganlyniad i'n defnydd o blaladdwyr, traffyrdd yn croesu ei lwybrau hela naturiol, ac mae cynhesu byd-eang yn lleihau niferoedd ei ysglyfaeth, sef trychfilod megis gwliwthenod.

Dros ganrifoedd, mae pobl wedi darganfod ffyrdd o ddofi a rheoli natur. Defnyddiodd yr Eifftaid gamelod, a'r Celtiaid a'r Rhufeiniaid geffylau. Dofwyd cŵn ar gyfer hela yn yr Oesoedd Canol. Gyda'r byd technolegol, tybiwn ein bod ni'n gwneud llai o ddefnydd o adnoddau naturiol ein planed, ond mewn gwirionedd mae ein hangen ni yr un mor enbyd ag erioed. Nodwn fod 380 miliwn o dda byw wedi'u dofi a'u trin gan bobl er budd pobl.

Dros Gymru a Lloegr, ceir cyfanswm o 4.8 miliwn hectar o laswelltir. Dim ond 110,000 hectar ohono sydd heb ei drin â gwrtaith a phlaladdwyr, sy'n cael ei aredig neu sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori da byw. Nid yw'r caeau agored yn darparu digon o gysgod i'n ffrind oes, pigog ni fedru hela.

Ffaith a glywir yn aml yw bod, yng Ngheredigion, un person i bob tair dafad. Pwysleisia hyn bwysigrwydd ffermio defaid i gymunedau cefn gwlad Cymru. Mae'n rhywbeth sy'n cynnal yr ardal; yn dod ag arian ac yn cynnal bywoliaeth. Mae'n rhywbeth hollol hanfodol, allweddol, ac mae wedi bod felly erioed. Ac os caiff y tir pori ei ailwyllltio, mae'n sicr na fydd modd i'r gymdeithas gynnal ei hun yn ei ffurf bresennol. Mae'n ddealladwy, felly, fod y term 'ailwyllltio' yn codi gwrychyn ac yn codi ofn. Ond mae'n rhaid dod o hyd i dir canol. Rhaid meddwl am ffordd gynaladwy o ffermio sydd ddim yn difrodi'r Ddaear. Rhaid ailfeddwl am bwrpasau ein cynnyrch da byw; mae'r ystadegau'n dangos bod pedwar deg y cant yn fwy o feganiaid eleni na llynedd yn y D.U. – mae hyn yn dystiolaeth gref nad oes dyfodol hirdymor i gynhyrchu cig. Rhaid cynllunio byd lle gall person a draenog fyw yn llewyrchus gyda'i gilydd. Yng Nghymru, mae'n un o blith miloedd o greaduriaid ysblennydd, deallus na allwn ni orffwys yn ddifater a'i wylio'n diflannu am byth.

Felly, yn y diwedd, y cwestiwn yw, a ydym ni yn ddigon dewr fel cenedl i dderbyn nad mater o 'os', ond 'pryd' bydd ailwyllltio yn digwydd mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Nid oes modd cloi'r ddadl hon â 'ie' neu 'nage'. Oherwydd y gwir yw nad oes dewis. Mae byw yn yr oes hon yn mynd yn anos; mae perthynas dyn a'r draenog yn profi hynny. Mae'r ddaear eisoes yn fflamgoch. Y peth lleiaf allwn ni ei wneud yw derbyn nad y ddynoliaeth yw'r peth pwysicaf ar y blaned, bod cymaint o rywogaethau arbennig, syfrdanol ac annisgrifiadwy o bwysig hefyd yn haeddu byw gymaint â ninnau.

Rhaid dod i gyfaddawd, nid yn unig er mwyn y draenog, ond er mwyn dyfodol bywyd ar ein planed.

**Elin Williams, Bow Street**

# Cyfansoddiadau 2023

## Englyn

**IBERS**
Had noeth o labordy'n iach – i erddi
Gogerddan, a bellach
Yn byw tan y croesau bach
I gynnal byd amgenach.

**Vernon Jones**



**Diolch i Rhun Fychan am drefnu cael llun.**

## Telyneg

**YMADAEL**
Wyf hwlc a'i ystlysau yn gwegian
Wrth ddreigio ei angor drwy'r llaid,
Y wêc wedi cau ar y moryd
A'r gwylain pryderus yn haid.

Mae bwcle o rwd ar fy siaenau
A dannedd y winsch o dan draul,
A dyna paham rwyf yn listio
Yn drwm tua machlud yr haul.

Na hidiwch am drwsio fy hwyliau
Mae rheini yn garpiau ar lawr,
Ond siawns na ddaw awel o'r morffia
I lonyddu y tonnau mawr.

**Vernon Jones**

## Limerig

Fe glywais am rywbeth ofnadwy;
Am bont wedi cau ym Mhorthaethwy,
Mam Cymru mewn strach,
Mae'n ynys mor fach,
Gwlad y Medra'n anachubadwy.

**Myfanwy Roberts, Llanrwst**

## Brawddeg – CYWILYDD

Canfuwyd y whilber i lawr y ddôl.
**Aled Evans, Trisant**

## Cerdd benrhydd am unrhyw aderyn

**Y CRYCHYDD**
Amser cinio:
rhwng dau doc o fara
ac un darn o gaws,
glaniodd clogyn o blu
ger y nant.

Yno, yn sefyll yn stond
ar goesau stileto
chwe modfedd a mwy,
roedd y crychydd.

Yn ddarlun o lonyddwch ac amynedd,
syllai'n ddwys i berfeddion y dyfroedd
â'i big hirfain felyn
yn disgwyl am wledd
o bryfed, brogaod a briwsion.

Ymdoddodd i'w gynefin
yn gerflun pluog cain,
a'i ddau lygad yn pefrio
fel peli bach crwn o ddur.

Ac yna'n ddisymwth
agorodd ei glogyn,
a chododd uwchben y nant
gan ddiflannu o'm golwg
mewn chwinciad.

**Judith Morris**

## Cerdd yn ymateb i 'Ebbw Vale at Night', John Piper

Porffor yw gwir gysgod, nid du –
arlliwiau blodau'r grug
yn efelychu
pydru'r machlud
a'r tân yn oeri, er llosgi
o hyd –
oeri'n llacharedd dur
dan sêr brwysg.

Glas yw prif gywair y stryd;
ni all y nos oedi
a lluwchio fel lludu
lle bo tân a thrydan
yn ymdroelli
yn wreichion mudan.
Er gwarth ein difrodi
crëwn gelf mewn cyni.

A thithau wedi gosod
yr olygfa fel hyn
gwelaf fod bwlch i mi,
y crwydryn, a bwlch
hefyd i fy nhref fy hun.
Gwyddom ni'n dau, nawr,
fod yna lefydd
tu hwnt i goffadwriaeth llun.

O dalcen ein tŷ mae'r golau'n
gwaedu'n hardd
a'r lle'n unig, a llen
ddulas y nos
yn gwahodd ymyrraeth lliw.
Gwelaist wacter yn llechu
tu fewn, yn llofio hyd
y welydd, yn chwilio'r drws.

Dihangodd y gwacter, erys llun –
nid fel yr oedd hi
yn ôl totalitariaeth camerâu
ond fel y mae yn y cof,
a'r stryd gam yn troi
er mwyn ein llusgo'n ôl
i weithdy'r dychymyg,
i'r galon aflonydd sy'n herio llymder ein byd.

**Morgan Owen**

Cyhoeddir stori fer Anwen Pierce yn rhifyn Mehefin o'r *Tincer* ac erthygl Carys Briddon ar siop Bont-goch yn rhifyn Mehefin o *Papur Pawb*. Llongyfarchiadau i Carys am ennill pedair gwobr am ysgrifau mewn eisteddfodau lleol yn ddiweddar – Eisteddfodau Mynytho, Capel y Groes Llanwnnen, Trevelin, Patagonia a Phenrhyn-coch!

Yn anffodus nid oedd modd cyhoeddi copi o'r llun Ebbw Vale at night gan John Piper gan fod hawlfraint yr arlunydd yn cael ei reoli gan DACS sydd â'u telerau y tu hwnt i bapur bro.

# Morgan Owen

Mae Morgan Owen, g 1994 yn hanu o Ferthyr Tudful, Graddiodd gyda BA Cymraeg o Brifysgol Caerdydd yn 2016, ac MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd yn 2017, o'r un Brifysgol, gan ymchwilio i ofodoldeb cerddi Dafydd ap Gwilym mewn perthynas â locus y goedwig.

Mae wedi cyhoeddi gwaith yn *O'r Pedwar Gwynt*, *Barddas,* ac *Y Stamp*; enillodd sawl gwobr ac ysgoloriaeth – e.e. Tlws Coffa D Gwyn Evans yn 2017 a 2018, sef tlws a roddir gan y Gymdeithas Gerdd Dafod am y gerdd orau mewn cystadleuaeth i feirdd dan 25 oed. Ym mis Ebrill 2018, dyfarnwyd iddo Ysgoloriaeth Gerallt gan Y Gymdeithas Gerdd Dafod i fynychu cwrs cynganeddu dwys yn y Tŷ Newydd; ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fe'i comisiynwyd gan y Senedd i gyfansoddi cerddi yn ymateb i nodweddion pensaernïol yr adeilad. Fe'i penodwyd yn Fardd y Mis BBC Radio Cymru yn Ionawr 2019.



Mae ei gyhoeddiadau yn cynnwys

- *Bedwen ar y lloer* (cyfrol o gerddi) Cyhoeddiadau'r Stamp, 2019.
- *moroedd/dŵr* (pamffled o gerddi) Cyhoeddiadau'r Stamp, 2019
- *Ymgloi* - pamffled o dair ysgrif fer sy'n olrhain profiadau'r cyfnod clo, 2020.
- *Ysgall* Gwasg Pelydr, 2021.

Yn Ionawr, 2020, derbyniodd ysgoloriaeth awdur gan Llenyddiaeth Cymru er mwyn datblygu casgliad o ysgrifau ar themâu amrywiol, gan gynnwys tirwedd a'r amgylchedd, perthyn ac ymddieithriwch, ysgrifennu am natur a'r Gymru ôl-ddiwydiannol. Enillodd Wobr Michael Marks am farddoniaeth yn yr Ieithoedd Celtaidd yn 2019 am y pamffled *moroedd/dŵr*.

Ers mis Rhagfyr mae o a'i gymar – y pensaer Efa Lois ( un fu'n gystadleuydd yn Eisteddfod Penrhyn-coch) yn byw yn ardal Aberystwyth ac mae o yn aelod o staff Geiriadur Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 24.04.2023 yn Ysgoldy Bethlehem, Derbyniwyd 1 ymddiheuriad.
**Aelodau'r Cyhoedd**: 1
(Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch a'r Clerc).

**Trafodwyd**:
**Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd talu: Anfoneb Ysgoldy Bethlehem, BHIB Yswiriant.

- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Trafodaethau gyda cwmniau i ddarparu offer. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau ynglyn a les yr ardal. Plannu coed yn y parc ger y llithren mawr a'r siglen mawr. Trefnu digwyddiad tennis i blant yr ardal.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 22 Mai 2023, i gynnwys y cyfarfod blynyddol yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com









# Enwau lleoedd

Angharad Fychan

Stryd o dai yw'r *Lôn Groes* neu *Cross Street* sy'n rhedeg i'r dwyrain o'r briffordd rhwng Pen-rhiw a'r Garn ym mhentref Bow Street.



Nid oes unrhyw dai o boptu'r ffordd ar Fap Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1847, ond gan fod y cofnod cynharaf o'r enw Saesneg y deuthum o hyd iddo yn digwydd yn yr *Aberystwyth Observer* ar 20 Medi 1879 (t.4, *Cross-street*) awgryma hynny i'r stryd ddod i fodolaeth a chael ei henwi rywbryd rhwng y ddau ddyddiad hynny.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion VI NE (1887) yn dangos tai ar ochr ddeheuol y stryd.**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Ymddengys mai cyfieithiad llawer diweddarach o'r enw Saesneg yw'r ffurf Gymraeg, y *Lôn Groes*.

Yr elfennau cyfystyr *croes* a *cross* sydd yn enwau'r ddwy iaith, ond gan nad oes ffyrdd yn croesi yma i greu croesffordd, rhaid ystyried a dderbyniodd y stryd ei henw ar ôl *croes* o fath gwahanol.

Er na cheir cofnod o groes yn y cyffiniau gan Cadw na'r Comisiwn Henebion, mae Vernon Jones, Gaerwen, yn tystio i draddodiad llafar lleol bod un yn arfer sefyll ym mhen ucha'r stryd ar ben lôn fferm Brysgaga.

Ym Muchedd Padarn, a gedwir mewn llawysgrif a ysgrifennwyd yn y ddeuddegfed neu'r drydedd ganrif ar ddeg, nodir mai *Crucis Agā* oedd un o'r tair eglwys y bu'r sant yn eu goruchwylio yn ystod yr un mlynedd ar hugain y treuliodd yng Nghymru. Mae'r enw'n cynnwys y gair Lladin *crucis* am 'groes' ac o bosibl yr enw personol *Agam*. Gan fod olion orgraff Hen Gymraeg yn y Fuchedd, gallai *Agam* fod yn cynrychioli'r sain *Agaf*, ac mae'n hawdd gweld sut y byddai'r gytsain olaf wedi ei cholli dros amser.

Lleolir *Crucis Agā* gan Egerton Phillimore ar safle eglwys Llangorwen yn nyffryn Clarach, ond nid oes tystiolaeth i ategu hynny. Tybed, felly, ai yn y *Lôn Groes* yr oedd hi mewn gwirionedd, ac mai *Croes Aga'* oedd y groes y mae Vernon Jones yn adrodd amdani?

Ategir hynny i raddau gan fodolaeth fferm *Brysgaga* ym mhen ucha'r *Lôn Groes*, gan fod posibilrwydd mai *Aga'* yw elfen olaf yr enw hwnnw hefyd. Nid yw'n amhosibl fod yr enw *Brysgaga* wedi deillio o *Croes Aga'* er y byddai hynny'n ddatblygiad braidd yn annisgwyl. Posibilrwydd arall yw bod y ddau enw, *Croes Aga'* a *Phrysg Aga'* (gyda *prysg* yn golygu 'clwstwr o goed mân, celli, planhigfa') wedi cydfodoli cyn i'r cyntaf fynd ar ddifancoll.

Heb dystiolaeth bellach, fedrwn ni wneud dim mwy na damcaniaethu!

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

y tincer
YTincer@googlemail.com

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth Market (1345)**
**29 Ebrill**

Gwerthwyd y cyfan i fasnach dda.

Defaid lladd (798) Amcg £60.15 Mwy £128 gan Evans, Gwynfa, Llangwyryfon.
gyda nifer o rai eraill dros y £100.
Hyrddod (47) Amcg £101 Mwy £140 gan Innovis, Peithyll. Eraill i £128 gan Lewis, Alltfedw.
Wyn blwydd (286) Amcg £81.75 Mwy £152 gan Lewis, Glanrheidol, Capel Bangor.
Eraill i £138 gan yr un gwerthwr.
Cyplau ŵyn a mamogiaid (222) Amcg £126 Mwy £210 gan Lewis, Nant y Mynach, Bryn-crug. (Efeilliaid £70 y bywyd) Llawer mwy £185 ac yn uwch.

Prisiau da eto heddiw fel yr uchod. Diolch am eich cefnogaeth.

**Rasio**

Bu'n dda dilyn Stevie Williams sydd yn seiclo yn y Giro D'Italia ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau iddo!





## Rhybudd cath Cefn-llwyd

Caryl Roberts lwyddodd i dynnu y llun yma yng Nghefn-llwyd – cath fawr 10 troedfedd – Gwaith gwych iawn Jo (Roy Jones) – wedi codi gwên wrth deithio trwy Cefn-llwyd. Mae Jo hefyd yn gofalu am nifer o feinciau eistedd ym mhlwyf Trefeurig gan wneud yn siŵr nad yw'r drain a dail poethion yn tyfu drostynt. Diolch Jo

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol


Llongyfarchiadau i Rhydian Skipp, Maes Gamlyn, ar ennill Manager 'a player of the year Tim pêl-droed Bears AC Llanilar. Tipyn o gamp.



Dymuniadau gorau i John Lewis Dolgamlyn sydd yn dathlu Pen blwydd arbennig y mis yma.

Cafodd Dafydd Morris Neuadd Parc yr anrhydedd o feirniadu y cobiau yn Sioe Frenhinol Windsor yn ddiweddar.


MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer Eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogo
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
MID Wales REMOVALS
www.midwalesstorage.co.uk
Ffon : 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
SCAN ME



WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com



## Dolau

**Teyrnged – Cofio Enid Pryse**

Trist yw cofnodi marwolaeth Margaret Enid Pryse yn 94 mlwydd oed yn dawel yn ei chartref yng nghyffiniau Perth, Gorllewin Awstralia ar 29 Ionawr eleni.

Ganwyd Enid ym mis Mehefin 1928, yn ail o chwech o blant i'r Parchedig Dan a Mary Ann Evans, Capel Seilo, Aberystwyth (1925-1951). Hanai'r rhieni o Flaenau Tywi yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, ardal a enwogwyd fel crud Methodistiaeth a 'Bro'r Emynwyr'. Ynghyd â Mair, ei chwaer hŷn, a'i dau frawd, Adrian a Trefor, mynychodd Enid ysgol Ardwyn ond ar ôl i'r teulu symud aeth Ann, y plentyn ifancaf i Ysgol Ramadeg Llandeilo. Mae hithau yn byw yn Awstralia ers degawdau. Collwyd y trydydd plentyn, Rhiannon, yn ddwyflwydd oed. Maes o law priododd Enid â Derrick Pryse (m.2000) gan ymsefydlu'n Y Dolau, lle ganwyd eu merched, Heather, Ann a Rhiannon. Wedyn, ar ddechrau 1962, ymfudont i Awstralia, gan fyw i gychwyn yn Nhalaith Tasmania ac yn derfynol yng Ngorllewin Awstralia.

Bu Enid yn hynod ymroddgar a gweithgar mewn llawer maes ymhob cymuned a rasusodd, heblaw am fod yn gefn calonogol ac eneiniedig i bob cenhedlaeth o'i theulu, sydd, erbyn hyn, yn cynnwys pump o ŵyrion a phedwar gor-ŵyr (y mwyafrif helaeth yn ferched).

Ar un adeg dyfarnwyd mai Enid oedd y nyrs orau yn yr holl dalaith! Yn fwy diweddar cafodd yr anrhydedd prin o'i hethol yn 'aelod am oes' o Gymdeithas Cymry Gorllewin Awstralia.

Cefnogodd genhadaeth ei chapel Cymraeg yn ddi-arbed gan gynnwys gwaith allanol i'r cefnfro (outback). Er hyn i gyd ni chollodd fymryn o'i diddordeb a'i brwdfrydedd am fuddiannau a diwylliant Cymru ac hefyd hanes cysylltiadau a chynefinoedd bore oes. Yn wir, dychwelai i'w mamwlad yn rheolaidd er mawr foddhad iddi hi ac i'r rhai fu'n ddigon ffodus â'i chyfarfod yn ystod yr ymweliadau hynny.

Yn ddiau, meddai Enid ar 'olud calon lân rinweddol' ac fe welir eisiau ei dynoliaeth gynnes, gynhwysol ac eangfrydig yn fawr iawn. Cynhelir gwasanaeth i'w choffau ac i ddiolch am ei bywyd yn ei chapel maes o law.

Cydymdeimlir â'r teulu yn Awstralia ac â'i brawd, Trefor, yn Rhydaman.

**David Williams, Aberystwyth**

## Difyrion Digidol – Deian ap Rhisiart

Yn y golofn ym mis Ebrill, fe sgwennais am y diwrnod mawr hir-ddisgwyliedig yn adeiladu beic digidol yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ynys Môn. Ac wedyn y cam naturiol wedyn oedd cyflwyno'r beic digidol cyntaf i gartref gofal lleol ac mi ddigwyddodd hynny ym mis Ebrill! Dyma fy argraffiadau o'r diwrnod.

Yr oedd yn ddiwrnod o gyffro ac o fwrlwm yng nghartref gofal Hafan Cefni, Llangefni ym Môn, pan ddaeth y cyfryngau i'r dre! Wrth dynnu fewn yn y maes parcio, gwelais fws mini Ysgol David Hughes wedi parcio, gyda Daron Harris a'i ddisgyblion yn aros i gario'r beic i fewn trwy'r drws. Yno hefyd oedd y cyflwynydd Gerallt Pennant a'i griw o Prynhawn Da. Roedd criw Prynhawn Da wedi dilyn y daith o'r cychwyn gan ffilmio'r adeiladu a rwan, i gyflwyno'r beic yn swyddogol. Yno hefyd yr oedd Simon Jones, fy nghydweithiwr a fu'n ganolog yn cynorthwyo'r disgyblion gyda'i arbenigedd yn adeiladu'r beic ac yn datblygu beiciau digidol newydd yn y gogledd. Cawsom ein croesawu i'r adeilad gan y reolwraig, Brenda Hughes a oedd yn wen o glust i glust. Roeddem wedi ymweld â'r cartref o'r blaen gyda'r beic digidol yn ôl yn 2019 reit cyn i'r pandemig daro ac yn sicr roedd hi'n falch i'n gweld eto. Roedd Brenda'n edrych ymlaen yn eiddgar at gael y beic yno'n barhaol ar ôl mwynhau'r ymweliad cyntaf. Trwy'r drws wedyn, y daeth y gohebydd Sion Pennar o BBC Cymru gyda'i ddyn camera yn barod amdani i holi ac arsylwi holl ddigwyddiadau'r dydd. Aethom â'r beic i gornel ystafell fawr braf a'i osod yno a dyna lle fydd cartref newydd y beic digidol a chyfle dyddiol i breswylwyr fynd am dro ar hyd llwybrau'r cof. Yr oedd criw sylweddol o'r preswylwyr wedi ymgynnull yn y lolfa gymunedol i dystio'r diwrnod pwysig a chael tro ar y beic. Seiriol Edwards o Gyngor Môn oedd y nesaf i gamu trwy'r drws – Seiriol oedd yn gyfrifol am dynnu Cyngor Môn i'r prosiect, diolch i berswad fy nghydweithiwr Lon Moseley, gan addo talu am yr offer i adeiladu'r beiciau a'u rhoi at ddefnydd cartrefi preswyl yr Ynys. Wedyn, daeth dau o fenter gymdeithasol North Wales Recycle IT trwy ddrysau Hafan Cefni. Y nhw sydd yn garedig wedi rhoi'r gliniaduron am ddim i reoli'r beiciau.

Roeddwn yn teimlo fy mod mewn gig fawreddog, wrth i'r preswylwyr aros i wylio sêr y cyfryngau yn perfformio. Ond nid y nhw oedd y perfformwyr y tro hwn, ond y preswylwyr ei hunain heb os! A dyna fu.

Yn eu tro, cafodd y preswylwyr gyfle i fynd ar y beic tra bod disgyblion Ysgol David Hughes yn cynorthwyo, ac yn ennill ffrindiau newydd yn eu cwmni. Bu yna hel atgofion am blentyndod, digon o berlau, hwyl a difyrwch, wrth i un bedlo ar hyd strydoedd tref Biwmares. Norma, 91 oed, fu'n cofio y tirfeddiannwr Richard Bulkley yn taflu ceiniogau poeth 'hot coins' o'r balcony yn y Bulkley Hotel i blant tlawd fel Norma. Cofnod amhrisiadwy a phrin o hanes, diolch i'r beic am sbarduno'r atgofion. Cafodd sawl un gyfle i bedlo ar lwybrau'r cof a llifodd yr atgofion eto. Nesaf, daeth y darlledwr Al Huws a'i gynhyrchydd Tegwen o BBC Radio Cytmru i ymuno yn yr hwyl. A chafwyd rhagor o hel atgofion plentyndod ar y beic wrth ymateb i holi cynnes Al Huws.

Diwrnod arbennig yn llawn prysurdeb. Diwrnod i'w gofio mewn sawl ffordd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau! Heb os, sêr y diwrnod oedd y preswylwyr a phleser oedd clywed hanesion cymeriadau annwyl Hafan Cefni. Ac wrth i'r beic ennill ei blwyf yn Hafan Cefni, bydd oriau lawer o fwynhad, hapusrwydd ac ymarfer corff yn cael ei dreulio yn dychwelyd i'r gorffennol.

Os hoffech wybod rhagor am y beic digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**

# LLE MAE NHW NAWR?

*Mae'r Parchedig Ganon Nerys Brown (Dr Nerys Ann Jones gynt) wedi bod yn byw yng nghanolbarth yr Alban ers dros ddeng mlynedd ar hugain bellach.*



Mynd i Gaeredin am chwe mis oedd y bwriad er mwyn cael profiad dysgu yn Adran Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol. Bythefnos cyn i'r cyfnod ddod i ben, fodd bynnag, cyfarfum ag Albanwr barfog a oedd yn ffidlwr o fri ac ymhen cwta flwyddyn yr oeddem yn briod ac yn byw yn Glasgow. Roedd Davie wedi cael swydd fel darlithydd yn Adran Hanes yr Alban y Brifysgol lle mae bellach yn Athro ac yn Ddeon Ymchwil. Fe fum i'n ddigon ffodus i gael parhau i weithio fel ymchwilydd i brosiect Beirdd y Tywysogion Prifysgol Cymru a chael cyfle hefyd i ddarlithio yn Adrannau Celtaidd Caeredin a Glasgow.

Ym mlynyddoedd cynnar ein priodas, treuliem fisoedd yr haf yng nghartref fy rhieni, Eddie a Bethan Jones, ar ffordd Clarach er mwyn i Davie gael cyfle i ddysgu siarad Cymraeg fel y gallem fagu ein plant drwy gyfrwng yr iaith. Buan y daeth yn arbenigwr ar dermau pêl droed, diolch i raglen Sgorio ar S4C, ac roedd wrth ei fodd yn trin a thrafod y pwnc gyda fy ewythr Llew ar ymweliadau â Rhyd-y-main. Cymraeg yw mamiaith ein meibion, Ewan a Sean, sydd bellach yn gweithio yng Nghaeredin a Stirling, ac mae Davie hefyd yn rhugl yn yr iaith ac wedi traddodi darlithoedd ar Hanes yr Alban yn y Gymraeg ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor.

Gadael dinas Glasgow fu ein hanes gan ymgartrefu yn Stirling yn gyntaf ac yna yn nhref fechan Dunblaneuju. Cawsom groeso cynnes yn Eglwys y Santes Fair lle roedd cyfaill i rieni Davie yn rheithor. Ar y cyrion oeddem ni pan ddigwyddodd y gyflafan yn 1996, ond a minnau bellach yn gofalu am ddau blentyn bach, buan y cawsom ein derbyn yn rhan o'r gymuned. Cefais fy ngwahodd i gynrychioli St Mary's yn y cyngor eglwysi lleol ac yna cytunais yn anfoddog i gyd-arwain clwb amser cinio yn yr ysgol gynradd. Dyma ddechrau cyfnod hapus a ffrwythlon yn cynnal pob math o weithgareddau Cristnogol ar gyfer plant a'u teuluoedd yn Dunblane fel rhan o dim mawr a oedd yn cynrychioli chwe enwad gwahanol.



Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, fe'm perswadiwyd i dderbyn hyfforddiant fel gweinidog lleyg fel y gallwn gynorthwyo yng ngwasanaethau'r eglwys yn ogystal a chenhadu yn yr ysgolion a'r gymuned leol. Yr oeddwn yn dal i wneud rhywfaint o ddysgu yng Nghaeredin ac wrth fy modd yn cyd-weithio gydag ysgolheigion yn yr Almaen, Iwerddon a Chymru ar amrywiol gyhoeddiadau yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol. Yna yn ddisymwyth yn y flwyddyn 2014, cefais fy argyhoeddi y dylwn gynnig fy hunan fel ymgeisydd am yr offeiriadaeth. Golygai hyn gefnu ar y bywyd academaidd ac ar Dunblane a mentro i gyfeiriad newydd a dieithr. Fe'm derbyniwyd a'm hafnon yn giwrad i Eglwys Ioan Sant yng nghanol dinas Perth. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi, cefais fy apwyntio i swydd yn hybu cenhadaeth ar hyd a lled yr esgobaeth. Dyma gyfle i ddod i adnabod cynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol o arfordir Fife i gyrion yr Ucheldiroedd wrth i mi geisio dirnad lle roedd Duw yn fy ngalw i wasanaethu. Er mawr syndod, dychwelyd i Dunblane yn rheithor ar Eglwys St Mary fu fy hanes. Chwe mlynedd yn ddiweddarach rwy'n dal i ryfeddu at y ffaith fy mod yn cael gwasanaethu'r gymuned arbennig hon a groesawodd ein teulu bach ni yng nghanol eu galar a'u colled.

Eglwys fechan Anglicanaidd yw St Mary's a adeiladwyd yng nghysgod Eglwys Gadeiriol Dunblane gan rai o'r tirfeddiannwyr lleol yn ystod oes Victoria. Y mae'r drws ar agor bob dydd a chroeso i ymwelwyr oedi yn y fynwent a'r gerddi sy'n ei hamgylchynnu. Rydym yn cynnal diwrnodau encil yn gyson, yn ogystal a gweithgareddau awyr-agored ar gyfer ieuenctid. Ychydig flynyddoedd ar ôl sefydlu'r eglwys yn 1845, adeiadwyd ysgol gerllaw i wasanaethu plant tlodion yr ardal. Heddiw y mae rhyw drigain o ddisgybion yn yr ysgol ac mae'r cyswllt clos rhyngddi a'r eglwys yn parhau.

Ers y pandemig rydym yn cynnal tri gwasanaeth ar y Sul: cymun tawel traddodiadol am 8.30 y bore, gwasanaeth cyfoes gydag emynau i gyfeiliant yr organ neu grwp o offerynwyr am 10.30, a chyfle am 8 yr hwyr i ddod ynghyd i addoli a myfyrio yng ngolau cannwyll gan ddefnyddio miwsig o Taizé neu Iona. Unwaith y mis, mae plant yr Ysgol Sul yn ymuno gyda ni ar gyfer gwasanaeth bywiog a phawb yn mwynhau bore coffi yn y Neuadd wedyn. Rwy'n ffodus i gael ciwrad, dau offeiriad wedi ymddeol a nifer o leugwyr dawnus i rhannu'r gwaith o arwain y gwasanaethau.

Er mai cymharol fychan yw'r gynulleidfa a llawer o'r aelodau mewn gwth o oedran, rydym yn weithgar iawn yn y gymuned, yn rhedeg grwp mam a phlentyn a chyfarfodydd ar gyfer yr henoed a phobl sy'n byw gyda dementia. Rydym yn cydweithio gydag eglwys mewn ardal ddifreintiedig yn Glasgow er mwyn croesawu ceiswyr lloches a'u teuluoedd yn gyson i Dunblane ac yn casglu dillad, offer a theganau ar gyfer babanod a phlant. Y gaeaf diwethaf, daeth neuadd yr eglwys yn fan cyfarfod ar gyfer ffoaduriaid o Wcrain sy'n byw mewn gwesty lleol. Rydym yn gweithio gydag elusen i ddarparu dillad ac offer ymolchi ar eu cyfer ac i roi cyfle iddynt ymarfer eu Saesneg. Ym mis Mawrth, cawsom *ceilidh* yng nghwmni nifer ohonynt - noson fythgofiadwy o ganu a dawnsio gwerin, cyfle i gael hwyl a gwneud ffrindiau.

Y mae gofalu am y Greadigaeth a'r rheini sy'n dioddef oherwydd Newid Hinsawdd yn bwysig i aelodau St Mary's. Llynedd trefnodd grwp bach ohonom ŵyl gan wahodd nifer o fudiadau ac elusennau amgylcheddol i Neuadd yr Eglwys er mwyn rhannu gwybodaeth a hybu ymwybyddiaeth yn lleol. Yn sgil llwyddiant Eco Fest 2022, rydym yn cydweithio gyda dau o'r mudiadau hynny i drefnu digwyddiad mwy ym mis Mai eleni gyda stondinau, gweithgareddau ac arddangosfeydd ar ddau safle yn y dref.

Mae croeso i ddarllenwyr y Tincer ymweld â gwefan yr eglwys, www.stmarysdunblane.org neu ein tudalen Facebook, neu i alw draw os ydych yn digwydd bod yn Dunblane!

# Cyngerdd i ddathlu bywyd John Davies

Nos Sadwrn 10 Mehefin 2023 fe gynhelir cyngerdd er cof am John Davies yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Bydd y gyngerdd yn deyrnged i ddyn lleol annwyl iawn ac yn gyfle i godi arian i gefnogi ac annog cerddorion ifanc – achos oedd yn agos iawn at galon John.

Ganwyd John yn Aberystwyth ym 1941. Aeth i Ysgol Gynradd Sant Padarn, Aberystwyth, ac yna i Ysgol Gadeiriol Llandaf, Caerdydd, lle daeth yn Ben Côr. Pan oedd yn 16 mlwydd oed dychwelodd i weithio i siop gemwaith a llestri y teulu - T.J. Davies, a sefydlwyd gan ei dad Titus a'i fam Annie Felix.

Treuliodd John ei oes yn ymwneud ag achosion da ac roedd yn gefnogol o bob agwedd o fywyd cerddorol yn y dref ac felly mae ei farwolaeth ar ddiwedd Awst 2021 yn golled nid yn unig i'r teulu ond i'r gymuned gyfan.

Dywedodd ei wraig Ann: "Roedd John yn hoff iawn o gerddoriaeth. Fe fyddai'n neidio ar bob cyfle i gymryd rhan ym mywyd cerddorol cyfoethog Aberystwyth ac fe rannai ei frwdfrydedd drwy annog a chefnogi cymaint o bobl â phosib. Roedd yn gymaint o gerddor ag yr oedd yn ddyn busnes ac felly mae'n addas bod ei fywyd yn cael ei gofio trwy gynnal cyngerdd."

Fel cerddor, chwaraeai John y cornet, y 'flugelhorn' a'r 'soprano cornet' gyda Band y Dref ac ef hefyd oedd yn arwain y Band Ieuenctid. Yn ogystal â hyn roedd hefyd yn drwmpedwr medrus ac yn aelod o Aber Jazz, Y Philomusica a'r Gilbert a Sullivan.

Ymysg yr artistiaid yn y gyngerdd y bydd Aber Jazz, Band Arian Aberystwyth, Only Boys Aloud a nifer o westeion arbennig yn cynnwys Ian Roberts - chwaraewr soprano cornet o fand y Cory, Heledd Gwynant sydd yn offerynnwr taro, a'r brodyr clocsio penigamp sef Daniel a Morus Jones.

Dywedodd mab John – Rhodri, am ei dad: "Byddai Dad yn arbennig o hapus i wybod eu bod nhw'n cymryd rhan gan ei fod bob amser wedi meithrin talent cerddorol ifanc trwy ei waith gyda'r Band Ieuenctid."

Bydd Canolfan y Celfyddydau yn rhoi'r elw o werthiant bob tocyn fel rhodd, a bydd teulu a ffrindiau John, ynghyd ag aelodau Clwb Rotari Ardal Aberystwyth yn helpu i drefnu'r digwyddiad ac yn gwirfoddoli ar y noson.

Pris tocyn yw £15, a £10 ar gyfer consesiynau. I archebu tocyn, ffoniwch Ganolfan y Celfyddydau ar 01970 623232 neu archebwch ar-lein: https://www.aberystwythartscentre.co.uk/cy





GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast ar gael
01970 820 050

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

Gwe Cambrian Web
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.
Cysylltwch heddiw!

cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Mai*

21 Dr. Rhidian Griffiths 10.00
28 Dr. Watcyn James 2.00

*Mehefin*

4 Dr. Watcyn James 10.00
11 Dr. Watcyn James 5.00
18 Y Parchg Carwyn Arthur 5.00
25 Y Parchg Ifan M. Davies 10.00

**Enwebu an wobr**

Cafodd Tŷ Bach Twt ei enwebu ar gyfer y wobr bwyd a diod yng Ngwobrau Cyntaf Aberystwyth eleni. Dymuniadau gorau iddynt.

**Newydd ddyfodiad**

Llongyfarchiadau cynnes i Mrs. Doreen Davies ar enedigaeth gor wyr arall; cafodd Harri John ei eni yn ddiweddar i Ioan a Dora yn Nhrawsfyndd. Cofiwn hefyd am Mam-gu – sef Gillian sy'n byw yn Llanbadarn, anrheg arbennig eto i chi fel teulu. Pob dymuniad da i'r bedair cenhedlaeth, ac edrychwn ymlaen i weld Harri gyda hyn.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i David Cooper a Lily (Mei Li), Minafon ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

**Cydymdeimlad**

Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â Wynne ac Eleanor Jones, Tan Gaer gan iddynt golli eu brawd yng nghyfraith ym marwolaeth Mr. Clive Evans o Gaerfyrddin. Roedd gwraig Clive, Sian yn chwaer i Wynne. Rydym fel ardal yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich colled.



**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol eleni ym mwyty Medina yn Aberystwyth a chroesawyd ein haelodau yno gan Lynne Davies, ein llywydd. Croesawyd hefyd Tegwen Morris, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr atom. Mwynhawyd swper blasus yng nghwmni ein gilydd. Mynegodd Tegwen Morris ei diolch i aelodau'r gangen am eu parodrwydd i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ac am eu brwdfrydedd. Soniodd am gynlluniau'r mudiad ar gyfer y dyfodol gan gyfeirio at brif ddigwyddiadau'r Haf a rhan y mudiad ynddynt. Gofynnodd am ein cefnogaeth, nid yn unig i'r digwyddiadau a drefnir gan Ferched y Wawr, ond hefyd i'r gwyliau cenedlaethol. Deuai brwdfrydedd Tegwen Morris yn amlwg wrth iddi sôn am y gwahanol weithgareddau. Fwy nag unwaith cyfeiriodd y gallem gael cymorth gan staff y mudiad wrth i ni drefnu a chynnal ein gweithgareddau.

Yn dilyn ein cais soniodd Tegwen am y modd y gweithredai gwahanol ganghennau drwy Gymru. O ganlyniad i hyn penderfynwyd newid ychydig ar ein patrwm arferol ac aethpwyd ati'n hwylus i ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i rannu syniadau ar gyfer ein rhaglen. Diolchwyd i'r swyddogion presennol am eu gwaith gan Beti Daniel, yr is-lywydd.

Rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â'n taith arfaethedig a drefnwyd yn fanwl gan Rita Jones, ein hysgrifennydd.




Gwahoddwyd Sharon Marie Jones o Swyn y Môr i gynllunio gwobrau cyntaf categoriau oedran ar gyfer ras Sialens y Barcud Coch gynhaliwyd ar Ebrill 29ain

## Edd Land



Mae rhai sydd yn teithio ar hyd yr A44 yn gyfarwydd a gweld Edd Land, Pen-llwyn, yn rhedeg yn yr ardal. Cyhoeddwyd portread ohono yn ddiweddar yn y cylchgrawn *Golwg* – lle gwelir fod y rhedwr yn y safle unigryw o fod wedi rhedeg prif farathonau y byd.

Decheuodd ei ddiddordeb pan gaewyd y pwll nofio am gyfnod ac iddo droi at redeg ac nid yw wedi troi nôl ers hynny. Erbyn hyn mae yn rhedeg tua wyth milltir y dydd. Ar ôl rhedeg marathon Llundain cafodd ei dynnu i mewn i 'y chwe mwyaf (six majors).

Dim ond ychydig dros 400 sydd wedi gorffen rhedeg y chwe prif farathon yn y byd – Tokyo, Chicago, Berlin, Llundain, Boston, ac Efrog Newydd ond ar ôl rhedeg un Tokyo yn ddiweddar mae Edd – sydd yn gweithio i Gyngor Sir Ceredigion yn un o'r rheiny.

Ei uchelgais yw rhedeg can marathon; mae tair ar y gweill eleni a Marathon Eryri dydd Sadwrn Hydref 28ain fydd yr 50fed iddo felly bydd hanner ffordd i gyrraedd hynny. Dymuniadau gorau iddo.



# Geiriadur Prifysgol Cymru – Geiriau dan Glo

Erbyn hyn, mae cyfyngiadau'r cyfnod clo yn dechrau mynd yn angof, ond nid yw'n anodd dwyn ei rwystredigaethau yn ôl i'r meddwl. Buom 'dan glo' er lles ein hunain ac eraill, ac yr oedd amser yn medru llusgo oni bai fod gennym gwmni a diddordebau neu orchwylion i'n cadw'n brysur a'n diddanu. I bob pwrpas yr oeddem wedi ein caethiwo, a dyma sut mae'r Geiriadur yn disgrifio **caethiwed** '*cyflwr un a garcharwyd neu a rwymwyd neu a ysbeiliwyd o'i ryddid a'i freintiau, caethglud …*'. I nifer o bobl yr oedd y cyfnod clo yn garchariad diflas, ac eto i eraill bu'n gyfle i gychwyn ar weithgareddau newydd a hyd yn oed i newid eu bywydau.

Mae'r Geiriadur yn diffinio **carchar** fel *'adeilad cyhoeddus y cedwir ynddo droseddwyr yn gaeth neu'n rhwym'.* Enwau eraill amdano medrwch chwilio amdanynt yn GPC Ar Lein (https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html) yw carchardy, caethle, clinc, dalfa, geol, gwart, jael, jêl, a phenydfa *(lle cosbi neu boenydio)* – digon o ddewis felly!

Am fethu talu ei ddyledion y carcharwyd John Jones, Gellilyfdy, ar ddechrau'r 17eg ganrif. Treuliodd sawl cyfnod dan glo yng ngharchar dyledwyr y Fflyd yn Llundain gan gadw ei hun yn brysur yn copïo llawysgrifau mewn llaw ac arddull nodweddiadol, gorchwyl a achubodd i'r dyfodol gynnwys llawer o lawysgrifau a fyddai fel arall wedi mynd ar goll. Hefyd – o ddiddordeb arbennig ac o fudd mawr i'r Geiriadur – fe luniodd restrau o eiriau am sawl agwedd ar fywyd bob dydd ei gyfnod: y tŷ a'i gynnwys; y fferm, gan gynnwys anifeiliaid a chyfarpar o bob math; crefftwyr traddodiadol a'u hoffer; a byd natur. Bu 'cyfnod clo' John Jones druan o fudd i'r iaith a'r genedl, er na fyddai hynny'n llawer o gysur iddo ar y pryd, siŵr!

Os hoffech ddysgu rhagor am restrau geiriau John Jones, mae 'na groeso mawr i chi ddod i gyfarfod blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru, yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar y trydydd o Fehefin am 2 o'r gloch. Yng nghwmni ein Llywydd, yr Athro Mererid Hopwood, bydd Ann Parry Owen a Gruffydd Aled Williams yn cyflwyno golygiad Ann o'r gwaith (*Geirfâu'r Fflyd: 1632–1633: Casgliad John Jones Gellilyfdy o eiriau'r cartref, amaeth, crefftau a byd natur*), a Maredudd ap Huw yn cyflwyno arddangosfa o lawysgrifau cysylltiedig. Mae'r digwyddiad am ddim, ac mae 'na groeso cynnes i bawb.

Os oes gennych unrhyw enwau neu eiriau yn ymwneud â charchar neu gaethiwo, mi fyddai'r Geiriadur yn falch o'u clywed. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: *Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*







## Y Cinio Mawr – Mehefin 2023!

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr! Cynhelir y Cinio Mawr bob Mehefin, fel rhan o 'Mis y Gymuned'. Mae'n esgus da i bawb ddod at ei gilydd er mwyn dod i adnabod eich cymodgion yn well, cymdeithasu a dathlu eich cymuned chi. Llynedd daeth bron i 700,000 o bobl at ei gilydd yma yng Nghymru i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

Mae'n syml! Gallwch drefnu paned gyda'ch cymydog, picnic yn y parc, barbeciw yn yr ardd, parti ar y stryd neu mewn neuadd leol… beth bynnag sydd ore i chi a does dim rhaid gwario!

Pryd? Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y 3-4 o Fehefin, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhyw bryd ym Mehefin. Am syniadau, ryseitiau a mwy ewch i www.yciniomawr.com i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim. Cofiwch gofrestru eich digwyddiad ar ein map ar y wefan hefyd, er mwyn inni gadw llygad ar y datblygiadau cyffrous ar hyd a lled Cymru!

Cofiwch rannu eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni! #YcinioMawr Facebook/Instagram/Twitter: Eden Communities Cymru bfutia@edenproject.com

# Bow Street

**Suliau Capel y Garn**
*Mai*
21 Bugail
28 Bugail

*Mehefin*
4 Noddfa
11 Bugail
18 Bugail
25 J. Tudno Williams

**Noddfa**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
*Mai*
28 Richard Lewis

*Mehefin*
4 Richard Lewis. Y Garn yn uno.
11 Richard Lewis. Cymundeb.
18 Cyfeillach yng ngofal Hywel Roberts
25 Richard Lewis

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Gaerwen ar ennill yr englyn a'r Soned yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch – gweler t. Daeth hefyd yn ail ym Mhontrhydfendigaid ar gyfansoddi emyn – Mawl i'r Gwasanaeth Iechyd.

Llongyfarchiadau i Dilys Baker Jones am ddod yn drydydd ar y stori fer ym Mhontrhydfendigaid.

**Pen blwydd hapus**
Dymuniadau gorau a phen blwydd hapus iawn i Glenwen Thomas, Maes Ceiro a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 21 Mai.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Alan, Davina ac Adrian Evans a'u teuluoedd ar farwolaeth eu tad Dewi Evans, Bryncastell yn dilyn salwch byr. Gwasanaethodd Dewi Glwb Pêl-droed Bow Street am gyfnod hir fel chwaraewr, rheolwr, llumanwr, cadeirydd ac aelod o'r pwyllgor. Mae ei ddau fab Alan a Adrian wedi dilyn eu tad yn eu hymroddiad i'r clwb, ac mae ei ŵyr, Ryan yn aelod o'r tîm cyntaf nawr.

Cydymdeimlwn hefyd yn fawr â Linda ac Alan Gay, Maes-y-garn, ar farwolaeth mam Linda, Doris King o Lancing, Gorllewin Sussex, ar 3 Ebrill, a hynny ddyddiau cyn ei phen blwydd yn 95 oed. Ond wrth gydymdeimlo, rhaid hefyd dymuno'n dda i Alan ar ei ymddeoliad o IBERS yng Ngogerddan wedi 39 mlynedd wrth ei waith. Bu yno o Ionawr 1978 hyd at fis Mawrth 1996, ac eto o Ionawr 2003 hyd at Ebrill 2023. Mae'n sicr iddo weld newidiadau lu yn y cyfnod hwnnw. Pob dymuniad da iddo, ac ymddeoliad hapus.

**Diolch**
Dymuna Jean, Rhian a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Iwan.
Fe wasanaethodd Iwan ei gymuned gyda brwdfrydedd a balchder. Amlygwyd hyn yn ei boblogrwydd ymhlith ei ffrindiau, cymdogion ac aelodau Capel Noddfa, Clwb Golff y Borth ac Ynys-las, Clwb Pêl-Droed y Piod a Chartref Tregerddan.

Diolch yn fawr i'r trefnydd angladdau DJ Evans, Penrhyn-coch, a diolch arbennig i'r Parch. Richard Lewis, Iori Jones, Vernon Jones a Wyn Lewis am eu teyrngedau. Diolch i bawb am eich presenoldeb yn y gwasanaeth coffa ac yna yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las lle 'roedd y merched wedi paratoi tê ardderchog. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
07792457816 / 01974 261758

## Cofio

**IWAN DAVIES**
**1938 - 2023**
Wrth gofio am Iwan yr ydym yn nodi ei fod yn frodor o Bow Street ac yn benodol yn llinach Davisiaid, Glanrafon; teulu sydd wedi bod yn gymaint rhan o bob agwedd o fywyd y pentref a'r ardal ar hyd y degawdau. Yn fab i'r diweddar David John a Sarah Ellen (Neli) ac yn frawd i'r diweddar Thomas Huw fe dderbyniodd Iwan, fel nifer o'i gyfoedion, ei addysg yn lleol cyn cael gwaith ar y rheilffordd. Bylchwyd ei gyfnod ar y rheilffordd pan gafodd ei alw i gyflawni ei Wasanaeth Cenedlaethol ond yn ôl at y rheilffordd y dychwelodd ar derfyn ei gyfnod gyda'r lluoedd. Yn ddiweddarach trödd ei olygon i gyfeiriad byd yr arian gan roi gwasanaeth clodwiw i gwmni yswiriant Refuge hyd ei ymddeoliad. Yn ystod ei gyfnod gyda Refuge treuliodd y teulu gyfnod byr yn byw a gweithio yn Ystradgynlais.

Tra'n gweithio ar y rheilffordd, yn station Trawscoed yn benodol, daeth merch ifanc o Dregaron i'w sylw wrth iddi deithio ar y trên i'w gwaith, un Jean Cameron, ac mae'r digwyddiad hwnnw yn hanes erbyn hyn gan i'r ddau ddod yn ŵr a gwraig yn y man ac yn rhieni i Rhian.

Yn feddiannol ar bersonoliaeth hyfryd yr oedd Iwan yn berson annwyl iawn, yn garedig a chymwynasgar ac yn naturiol ddireidus a ffraeth. Ac yr oedd y dyrfa luosog ddaeth i'w Gyfarfod Coffa a gynhaliwyd yn ei hoff Gapel Noddfa ar brynhawn y 14eg o Ebrill yn dystiolaeth bendant o'i boblogrwydd ymhlith ystod eang o gydnabod yn ogystal ag yn amlygiad llawer iawn o bobl o werthfawrogiad amlwg o'r hyn a gyflawnwyd ganddo trwy'r gweithgareddau y bu'n ymwneud â hwynt ar hyd y blynyddoedd – Capel Noddfa,

Clwb Pêl-droed Bow Street, Clwb Golff y Borth ac Ynys-las a Ffrindiau Cartref

Tregerddan i enwi dim ond rhai. Yn ei waith o ddydd i ddydd gyda Refuge yr oedd yn uchel ei barch gan bawb a llawer yn tystio ei fod wedi bod o gymorth ymarferol mawr iddynt. Yr oedd plant y teuluoedd y byddai'n ymweld â hwy yn ei hoffi hefyd gan y byddai ganddo lond ei boced o sweets bob amser!



Wrth edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd yr ydym yn cofio am y drychineb fawr a ddaeth ar draws y teulu ar y 27in o Dachwedd 1988 pan fu ei fam a'i frawd farw mewn amgylchiadau mor drist.

Ar nodyn cadarnhaol cofiwn am y llawenydd mawr ddaeth i ran y teulu pan briododd Rhian a Dorian a'r llawenydd mwy fyth ddaeth i'w rhan gydag ymddangosiad, datblygiad a llwyddiannau Lowri Elen a Tomos ar hyd y blynyddoedd. 'Roedd Iwan y 'dat' mwyaf bodlon yn y byd!

Braint yw cael cyfle i gofio am Iwan ac i ddiolch iddo am roi oes o wasanaeth diflino i'w deulu ac i'w gymdeithas. Pobl fel Iwan sy'n cynnal teuluoedd, cymunedau, cymdeithasau a bywyd gwâr, ac mae eu gwir angen heddiw fel erioed.

## MYW Rhydypennau



Ar nos Lun Mawrth 13eg daethom at ein gilydd yn Crefftau Pennau i ddathlu Gwyl Ddewi, wedi trafod materion yn codi cawsom swper blasus o gawl cartref a dewis o bwdin. Diolch o galon i'r perchnogion a'r staff am agor yn hwyr i ni. Ein gwraig wadd oedd Llinos Dafis a'n diddanodd gyda sgwrs ddifyr ar y pwnc 'Geiriau' a wnaeth ein harwain ar hyd sawl trywydd diddorol. Roedd wedi bod yn brysur yn casglu penillion a diarhebion- wel am noson ddifyr. Diolch o galon iddi.

Roedd cyfarfod Ebrill wythnos yn hwyrach oherwydd y Pasg. Wedi croesawu pawb, estynnwyd ein cydymdeimlad dwysaf â Jean Davies a'r teulu ar farwolaeth ei phriod Iwan. Llongyfarchwyd Lisa Davies ar ddathlu pen blwydd arbennig. Dosbarthwyd ffurflenni ethol swyddogion am y flwyddyn nesaf ac atgoffwyd pawb am gystadlaethau Gŵyl Fai.

Y wraig wadd heno oedd Betsan James Jones o Langwyrfon. Graddiodd Betsan o Goleg Sir Gar gyda gradd mewn tecstilie a chynllunio ffasiwn. Dywedodd bod y diddordeb yn y maes yma wedi cychwyn yn ifanc pan oedd adre ar y fferm ac angen trwsio jins ei thad a'i brawd. Daeth a nifer o eitemau gyda hi - gwisgoedd roedd hi wedi eu cynllunio a'u gwneud ar gyfer y cwrs coleg.

Enillodd ysgoloriaeth Miriam Briddon tra yn y coleg ac mae wedi defnyddio'r arian i brynu caban yn yr ardd i'w galluogi i weithio o adre.

Enillwyd y raffl gan Gaenor Jones a pharatowyd y baned gan Margaret Rees a Gweneira.





**Rhedwyr**
Llongyfarchiadau i Trystan Roberts a Jade Gaitely ar redeg Marathon Llundain ar 23 Ebrill mewn ychydig dros 5 awr gan gasglu dros £2,000 i NSPCC.

## Capel y Garn ym mis Ebrill

Yn ôl ein harfer bellach cyd-addoli ag aelodau Capel Noddfa wnaethon ni ar Sul cyntaf y mis. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, fore Gwener y Groglith, cafwyd gwasanaeth bendithiol i'r Ofalaeth yng nghapel Seion; dilynwyd hwnnw gan Oedfa fore Sul y Pasg i'r Ofalaeth yn y Garn dan arweiniad y Parchg Watcyn James; y Gweinidog fu hefyd yn gwasanaethu yma ar Ebrill 16eg. Ymunwyd unwaith eto â chynulleidfa Capel Noddfa y Sul canlynol, ac ar Sul olaf y mis y Parchg Judith Morris fu'n arwain ein gwasanaeth yn y Garn.

Nos Fawrth. Ebrill 18fed daeth Mrs Sarah Morris i'r Garn gyda chyflwyniad gwerthfawr dan y teitl Sesiwn Gwybodaeth Ffrindiau Dementia.

Llongyfarchiadau diffuant i'r Gweinidog, y Parchg Ddr Watcyn James a'i briod Lowri, ar ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol, ac i Watcyn, yn ogystal, ar gyflawni deugain mlynedd yn y Weinidogaeth. Pob dymuniad da i chi'ch dau at y dyfodol.

## Cylch Meithrin Rhydypennau



**Ar Ebrill 27 dywedwyd hwyl fawr i'r fyfyrwraig Keira sydd wedi bod gyda ni am y deg wythnos diwethaf. Dymunwn y gorau iddi wrth iddi orffen ei gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth.**


**y tincer**
YTincer@googlemail.com

# Clwb Pêl-droed y Piod

Mae'r Piod wedi cael tymor i'w gofio eleni gyda chyfres o fuddugoliaethau. Curodd y tîm cyntaf Ros Aelwyd o 3-0, a churodd yr ail dîm Ddolgellau o 1-0. Bydd y tîm cyntaf yn wynebu Dinbych yn rownd derfynol Cwpan Cynghrair Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cynhelir y gêm hon – un o'r rhai pwysicaf yn hanes y clwb – yng Nghaersws, 20 Mai. Cofiwch fynd i'w cefnogi!

Curodd yr ail dîm Ddolgellau o 1-0, gan ddod i frig Cynghrair Eilyddion y Canolbarth. Erbyn y rhifyn nesa byddwn yn gwybod a enillodd y tîm Gwpan y Gynghrair. Pob lwc!

Cawn mwy o luniau a'r hanes i gyd yn y rhifyn nesaf.






## Capel Noddfa

Roedd cyfarfod 'Cyfeillach' mis Ebrill Capel Noddfa dan ofal Elisabeth Wyn. Mae Elisabeth wedi casglu nifer fawr o wrthrychau yn ystod ei bywyd i nodi achlysuron arbennig ac wedi cadw'r cyfan mewn blwch pren addurnedig a wnaethpwyd gan ei thad. Yn ystod y cyfarfod defnyddiodd Elisabeth y gwrthrychau i roi cipolwg i ni o'i bywyd a'i gyrfa a phwysleisiodd pa mor ganolog bu ei ffydd. Aeth a ni'n gyntaf i gyfnod ei phlentyndod yn Ninas Mawddwy a dangoswyd enghreifftiau o'i dawn creadigol cynnar a dawn arbennig ei thad wrth drin pren. Cyd-ganwyd emyn Eifion Wyn 'Dod ar fy mhen dy sanctaidd law' i gofio am y cyfnod. Roedd pasio'r ysgoloriaeth i fynychu Ysgol Dr Williams yn Nolgellau yn agor drws i fyd hollol newydd i'r Elisabeth ifanc ac yn gyfle i ddatblygu ei doniau ymhellach. Enillodd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953 am wau sgarff. Mae'r ffaith bod cystadleuaeth o'r fath yn y Genedlaethol yn rhyfeddod yn ei hunan ond roedd y wobr yn fwy hynod fyth sef y llyfr *I Bought a Mountain* gan Thomas Firbank! Mae'r ddau yn y blwch cofio.

Gadawodd Dolgellau i ddilyn gyrfa nyrsio yn Portsmouth ac roedd nifer o wrthrychau diddorol yn gysylltiedig â'r symudiad hwnnw. Yn ôl wedyn i Aberystwyth a chael nifer o brofiadau difyr gyda dawnswyr Aberystwyth a gwrthrych yn cofnodi pob taith a digwyddiad wedi eu cadw'n ofalus. Treuliodd ddeng mlynedd ar hugain yn gweithio yn y Cyngor Llyfrau ac mae'r gerdd ysgrifennodd J.R. Jones iddi ar ei hymddeoliad yn un o'r trysorau.



Byddai'n anodd dewis un gwrthrych yn arbennig gan fod i bob un ei atgof personol unigryw. Y wisg gyntaf iddi wnïo, y gragen addurnedig sy'n atgof o fynd i weld set y ffilm The Inn of the Sixth Happiness ym Meddgelert, neu'r gwrthrych anarferol sy'n atgof o ymweliad â wal fawr China, neu'r Testament Newydd bychan a gafodd yn anrheg wrth iddi adael Dinas, neu efallai'r groes fechan gafodd i'w atgoffa o'i ffydd ac i gynnig nerth a chysur iddi mewn cyfnod anodd.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

## Buddugol yn Urdd 2023

Cyhoeddwyd canlyniadau Cenedlaethol Celf, Dylunio & Thechnoleg Eisteddfod yr Urdd 2023. Llongyfarchiadau i Gwenan Jenkins, Penrhyn-coch ar ddod yn gyntaf yn Ffotograffiaeth: llun du a gwyn Bl 10 a dan 19 oed; Elis Jenkins, Penrhyn-coch ar ddod yn ail yn Uwchgylchu Bl 7 8 a 9 a Megan Griffiths, Llandre am ddod yn drydydd yn Graffeg Cyfrifiadurol Bl 7 8 a 9. Disgyblion yn Ysgol Gyfun Penweddig.

### AR WERTH

Sgwter symudedd Illusion gyda batri wedi ei wefru'n llawn. Sgwter fel newydd, llai na blwydd oed ac ond wedi cael 3-4 mis o ddefnydd.

Pris yn newydd £2,195 – Pris gwerthu i'w drafod. Cysylltwch â Rhian ar **07890 599 204**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# CYLCH CINIO

Dychwelyd yn ôl i Glwb Golff Aberystwyth fu hanes y Cylch Cinio ar gyfer ein cyfarfod mis Mai eleni. Ar noson braf o haf fe osodwyd y cywair iawn a phawb mewn hwyliau da am noson ddifyr gan y siaradwr gwâdd adnabyddus, a chyn-brifathro Ysgol Gynradd Tregaron John Jones o Ffair-rhos. Prif thema ei gyflwyniad oedd ail greu darlun byw o gymuned glos wledig oedd yn meddu ar ddoniau rhyfeddol o drin a saernio geiriau. Mae Ffair-rhos ar gyrion Elenydd uwchlaw Pontrhydfendigaid wedi meithrin cyfartaledd uwch na'r cyffredin o feirdd adnabyddus ac mae John ei hun yn deillio o'r llinach diwylliedig honno. Mae enwau cyfarwydd cenedlaethol yn eu plith: y Cyn-Arch-dderwydd W J Gruffydd (Elerydd), Evan Jenkins, Dafydd Jones, Jac Oliver (Y barbwr), Dafydd Henry Edwards, Moc Rogers, Islwyn Edwards a gellir olrhain achau Lyn Ebeneser a Gwenallt Llwyd Ifan yn ôl i Ffair Rhos. Mae'r traddodiad yn dal yn fyw yno hyd heddiw.

Mae rhai yn honni mai Mynachlog Ystrad Fflur yw achos ffenomena y clwstwr o feirdd Ffair-rhos. Roedd Ystrad Fflur yn un o ganolfannau rhagoriaeth pwysicaf Ewrop hyd nes i'r mynachlogydd gael ei chwalu gan Harri'r VIII yn 1536. Mae olion hen lwybr yn cysylltu yr Abaty a Ffair Rhos yno hyd heddiw ac yn ôl y sôn byddai'r mynachod disglair a dysgedig hefyd yn arbenigo hefyd mewn amaethu a chynhyrchu medd ac y byddent yn ymweld yn gyson â merched Ffair-rhos.

Dros y canrifoedd fe ddaeth awen y beirdd lleol yn adnabyddus gan osod Ffair-rhos ar y map. Cyfeiriodd John am yr hwyl a'r tynnu coes, y doniolwch, y cystadlu a'r cyrddau bach a'r eisteddfodau a'r trafod a'r sgyrsiau a'r pwyso a'r mesur yng ngweithdy'r crydd. Dywedodd am y beirdd yn Ffair-rhos eu bod yn ofni Duw ac yn ofni'r beirdd. Byddai cystadlu cyson rhwng y clystyrau eraill o feirdd megis y Cilie, Mynydd Bach, Ffostrasol ac eraill a phawb yn adnabod ei gilydd.

Wrth ddiolch i John am godi cwr y llen ar gylch cyfrin y beirdd fe wnaeth Phil Davies, Tal-y-bont dalu teyrnged i John am ei gyfraniad sylweddol iawn i'w gymuned dros y blynyddoedd nid yn unig fel athro a phrifathro ond hefyd fel un sydd wedi cofleidio diwylliant ei fro. Mae ei gefnogaeth i eisteddfodau lleol gan gynnwys Eisteddfod y Bont ac Eisteddfod Fawr Tregaron 2023 yn nodedig. Mae'n un o hoelion wyth Clwb Pêl-droed y Bont yn gyn-chwaraewr ac yn Gadeirydd a'i ddylanwad yn fawr dros sawl cenhedlaeth o blant a phobl ifanc y fro.



John Jones (ail o'r chwith) fu'n dweud mwy wrth aelodau'r Cylch Cinio am ffenomena Beirdd Ffair-rhos. Hefyd yn y llun mae John Watkin (Ffair-rhos), John Williams, (Cadeirydd), Huw Williams (Ysgrifennydd) a Phil Davies (Tal-y-bont)

Enillwyd y raffl gan Gordon Jones, Bow Street.

Roedd yn braf iawn gweld Eddie Jenkins yn ôl yn ein plith wedi ei ddamwain ac yntau ar ei ffordd i gyfarfod mis Ionawr o'r Cylch Cinio. Da clywed bod Tegwyn Lewis, Rhos-goch wedi dychwelyd adre o Ysbyty Bron-glais, Llongyfarchwyd Dewi Hughes a John Lewis am ddod yn dad-cu am yr ail a'r pedwerydd tro.

Bydd ein cyfarfod nesaf yng nghlwb Pêl -droed Penrhyn-coch ar nos Wener Mehefin 10fed a hynny yng nghwmni y Prifardd Twm Morus, Llanystumdwy.

Mae lle arbennig i lond llaw o aelodau newydd i ymuno gyda ni. Dyma eich cyfle. Gallwch gysylltu â'r Ysgrifennydd Huw Williams huwwilliams1@btinternet.com

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

YTincer@googlemail.com
**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Ysgol **Rhydypennau**

Yn dilyn yr addewid yn rhifyn diwethaf *y Tincer*; dyma'r gerdd fuddugol a enillodd y gadair yn yr Eisteddfod eleni. Llongyfarchiadau mawr i Mirain Evans am ei chyfansoddiad!

**Gwanwyn**

A glywsoch chi hyn yn y Gwanwyn?
Adar yn canu ben bore.
Cerddoriaeth swynol i fy nghlustiau bach i.
Dyma y Gwanwyn i fi.

A welsoch chi hyn yn y Gwanwyn?
Blodau'n blaguro yn bert.
Golygfeydd hardd i fy llygaid bach i.
Dyma y Gwanwyn i mi.

A theimlwch chi hwn yn y Gwanwyn?
Egni yr haul wrth dywynnu.
Cynhesrwydd braf ar fy nghroen i.
Dyma y Gwanwyn i mi.

A flasoch chi hyn yn y Gwanwyn?
Siocledi melys wyau Y Pasg.
Bara brith blasus ar fy nghafod i.
Dyma y Gwanwyn i mi.

Arogloch chi hyn yn y Gwanwyn?
Gwlybaniaeth y gwlith ar ben bore.
Erwau o clir llawn persawr i fi.
Dyma y Gwanwyn i mi.

**Mirain Evans**

### Chwaraeon

Ar y 18fed o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf. Er i'r merched frwydro yn galed, methu wnaethant o drwch blewyn i gyrraedd yr 16 olaf. Chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan guro pob un o dimoedd y grŵp. O ganlyniad i hyn aethant ymlaen i rownd yr 16 olaf gan guro Ysgol Plas-crug o 4 gôl i 0; aethant ymlaen i'r rownd go gyn derfynol gan guro Ysgol Llanilar ar giciau cosb; Ond fe ddaeth y daith i ben yn y rownd gyn derfynol wrth i'r tîm golli 2-1 mewn gêm agos a chyffrous. Hen dro – ond ymdrech arbennig.

Ar y 27ain o Ebrill fuodd merched y tîm pêl rwyd yn herio ysgolion y Sir yng nghawell y Brifysgol. Brwydrodd y merched yn arbennig o dda gan ennill sawl gêm nodedig o fewn y grŵp. Campus!

### Ymweliadau

Cafodd plant blwyddyn 5 a 6 gyfle i fwynhau amrywiaeth o gampau gwahanol yng ngŵyl chwaraeon Ceredigion Actif yn ddiweddar. Diolch i Steve a'r tîm am fore arbennig ar dir astro Prifysgol Aberystwyth.

Diolch o galon i Naomi, Tyfu Dyfi a biciodd mewn i'r dosbarth derbyn yn ddiweddar i blannu hadau pys a blodwau Mair. Erbyn hyn, mae'r hadau wedi egino ac mae'r planhigion yn ffynnu!

Diolch yn fawr iawn i Hugh a Josh o'r RNLI a dreuliodd y prynhawn gyda ni yn ddiweddar. Rhannwyd llwyth o wybodaeth a chyngor hynod o bwysig i holl blant yr ysgol.



Pêl-rwyd



Mirain yn cipio'r gadair gyda Ted, Jac a Gwen



Tyfu Dyfi



Gŵyl Chwaraeon




Pêl-droed merched




Pêl-droed bechgyn

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Ysgol Greadigol**
Dros yr wythnosau diwethaf bu plant yr ysgol gyfan yn creu ffilm yn seiliedig ar hanes Hen Wrach Cors Fochno. Roedd llawer o'r gwaith wedi dod o syniadau'r plant eu hunain ac roedd pawb wedi cael cyfle i ddysgu medrau newydd fel animeiddio, defnyddio sgrin werdd, ffilmio a golygu. Yr uchafbwynt oedd dangos y ffilm wedi ei orffen i rieni yn ein prynhawn agored diweddar. Roedd hi'n hyfryd i weld ymateb y plant a'r oedolion wrth wylio'r ffilm.
Y mae'r plant wedi mwynhau un weithgaredd yn fawr iawn yn ddiweddar, sef mynd i draeth y Borth i godi cregyn amrywiol i greu darn o waith celf. Roedd y cynnyrch terfynol yn drawiadol iawn a bu pawb wrthi'n ddyfal yn gosod y cregyn mewn clai – gwych blant.









**Ysgol Iach**
Mae plant yr ysgol bob amser wrth eu boddau'n cael gwahoddiad i ymuno gydag ysgolion eraill i ymarfer eu medrau corfforol. Y tro yma, aeth Blwyddyn 4,5 a 6 i gaeau Prifysgol Aberystwyth i ddysgu mwy o gemau a gwella eu ffitrwydd. Diolch yn fawr i dîm Ceredigion Actif am drefnu'r digwyddiad unwaith eto.





**RNLI**
Yn flynyddol bellach, rydym yn derbyn sesiwn i'n hatgoffa ni o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn ystod misoedd yr haf wrth i ni fentro i'r traeth i fwynhau ein hunain. Cafodd y plant lawer o hwyl yn gwisgo'r dillad, ond roedd y neges i gadw'n ddiogel yn glir iawn yn enwedig a ninnau'n byw mor agos i'r môr yn y Borth.

**Traws-gwlad**
Yn dilyn cyfnod hir o beidio gallu cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y cylch, roedd hi'n braf mentro i Ysgol Gymraeg Aberystwyth i redeg y cwrs traws-gwlad unwaith eto. Gyda dros 70 o blant yn cystadlu ymhob ras, roedd hi'n braf gweld rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd yn ôl gyda'r goreuon – da iawn chi blant.

**Dysgu Seiclo**
Llongyfarchiadau mawr i blant hynaf yr ysgol am basio'r prawf beicio. Mae llawer iawn o blant yr ysgol yn cyrraedd ar feic ac ar sgwter felly mae'n bwysig bod pawb yn dysgu sut i seiclo'n ddiogel. Gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol dros yr wythnosau nesaf fel bod pawb yn gallu mentro yma ar feic fel rhan o'u taith i'r ysgol.

**Ysgol y Goedwig**
Mae'r gweithgareddau bywiog a diddorol yn parhau. Mae'r athrawon yn trefnu sesiynau amrywiol yn yr awyr agored ac mae'r ysgol gyfan yn ymuno i fwynhau gyda'i gilydd. Roedd y plant wir wedi mwynhau'r cyfle o fwyta *hot dog* yn y coed.

**Ysgol y Gymuned**
Yn dilyn ymweliad diddorol iawn gan un o'n rhieni'r mis diwethaf i drafod y traddodiadau sydd yn rhan o Ramadan, aeth dosbarth y Dysgu Sylfaen ati i greu losin ar gyfer dathlu diwedd y cyfnod ymprydio. Fe gawson nhw dipyn o hwyl yn creu losin ar gyfer Eid – gobeithio eu bod nhw'n flasus.



# Ysgol **Pen-llwyn**

**Statkraft**
Buodd dosbarth 2 yn ymweld â chwmni Statkraft yng Nghwmrheidol – bore difyr yn dysgu am gynhyrchu pŵer! Cerddodd pob disgybl a'r athrawon yn ôl i'r Ysgol – taith o 4.75 milltir – da iawn chi – diwrnod o gadw'n heini hefyd!

**RAY Ceredigion**
Rydyn wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn gweithdai dros gyfnod o 4 wythnos – gweithdy chwarae yn ystod ein hawr ginio - mae'r plant wedi bod wrth eu boddau gyda Gemma a Helen yn adeiladu lloches, chwarae gyda tywod, gwisgo i fyny a llawer mwy!
Hyfforddiant Llysgenhadon Efydd I Manon ac Anwen a braf gweld y ddwy yn paratoi gweithgareddau ar iard yr Ysgol gan sicrhau bod pob disgybl yn yr Ysgol yn cael y cyfleoedd.

**Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd**
Braf gweld tîm cymysg o'r ddwy Ysgol yn cymryd rhan – da iawn chi ferched!









**Arwerthiant planhigion a chacennau**
Trefnwyd y digwyddiad gyda Nicola a Sara sydd yn aelodau o'r pwyllgor 'PTA' – buodd Dyfrig ac Alfie ein disgyblion brwdfrydig yn brysur iawn yn gofalu am y planhigion yn y Twnel plannu! Diolch i'r nifer o rieni buodd yn paratoi cacennau ac yn sgîl y paratoi codwyd £242 – swm ardderchog!

**Gweithdy criced**
Cafwyd diwrnod hyfryd gyda Paul o Criced Cymru. Dysgwyd llawer o sgiliau mewn modd hwylus iawn ac mae'n saff i ddweud bod ganddom nifer o daflwyr arbennig!!





## Ysgol **Penrhyn-coch**

**Croeso cynnes**
Croeso cynnes i Elsi Wynn, Alfie ac Elijah i'n teulu mawr. Gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith.

**Gweithdy Enwau lleoedd**
Diolch o galon i Dr Angharad Fychan am gynnal gweithdy 'Enwau Lleoedd' gyda Dosbarth 4 dros deuddydd. Roedd pawb wedi mwynhau dysgu am darddiad enwau ein cynefin gan gynnwys enwau cartrefi a stadau tai a'u hystyr. Gweithdy diddorol iawn yn llawn gwybodaeth gwych.

**Siarad cyhoeddus**
Yn ddiweddar, bu criw o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yn siarad ar goedd i'r gymuned yn Neuadd y aPenrhyn am eu gwaith ar berswadio pobl i yrru'n ofalus trwy'r pentref.

**PC Diana Boyt**
Diolch i PC Diana Boyt am roi gwers i Flwyddyn 5 a 6 am beryglon cyffuriau - 'Dy ddewis di'.














## Ysgol **Penrhyn-coch ac** Ysgol **Penllwyn**

**Eisteddfod Ysgol ac Eisteddfod Penrhyn**
Roedd Eisteddfod Penrhyn eleni ar b'nawn Gwener yr 21ain o Ebrill felly penderfynwyd dathlu'r Eisteddfod fel rhan o Eisteddfod Ysgol Penrhyn-coch a Phen-llwyn a chynnal rhagbrofion yn y ddwy ysgol. Cafwyd cystadlaethau canu, llefaru, chwarae offeryn a Sgen ti dalent. Diolch o galon i Mrs. Llinos Bonsall (Llefaru) ac i Sion Wyn Hurford (canu) am feirniadu yn rhagbrofion ein heisteddfod Ysgol.

Yn ychwanegol i hyn bu pawb yn brysur yn cwblhau tasgau cofnodi, rhifedd, celf a TGCh o fewn eu dosbarthiadau. Ysgrifennodd blwyddyn 6 Stori ar thema o'u dewis ar gyfer cystadleuaeth y Gadair. Cynhaliwyd y seremoni Cadeirio yn yr ysgol ar ddydd Mercher 19eg ym Mhen-llwyn ac ar ddydd Iau y 20fed o Ebrill ym Mhenrhyn-coch. Cipiwyd y Gadair gan Twm Williams Ysgol Penrhyn-coch a Manon Lewis Ysgol Pen-llwyn. Llongyfarchiadau enfawr i'r ddau ohonoch. Da iawn hefyd i Seren Lockyer (Penrhyn) a Llinos Rowlands (Pen-llwyn) am ddod yn ail ac i Gruff ap Llywelyn (Penrhyn) a Dyfrig Evans (Pen-llwyn) am ddod yn drydydd.

Buddugwyr yr Eisteddfod eleni oedd tîm Seilo a Melindwr gyda Stewi a Rheidol yn ail. Da iawn i bawb am wneud ymdrech i gystadlu.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i Bwyllgor Eisteddfod Penrhyn am drefnu yr Eisteddfod ar y pnawn Gwener a dymunwn wellhad buan i Mrs. Marianne Jones Powell.

**Parti Merched Rhieni a Staff**
Llongyfarchiadau enfawr i'r Parti Merched oedd yn cynnwys Rhieni a Staff y ddwy ysgol am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth y parti canu yn Eisteddfod Penrhyn ar nos Sadwrn yr 22ain o Ebrill. Cawsom lawer o hwyl yn yr ymarferion. Gobeithio gawn cyfle i ddod at ein gilydd fel parti eto. Diolch yn fawr i Miss. Catryn Lawrence am ein hyfforddi.

**Gŵyl Pêl-droed**
Erbyn hyn, mae'r ddwy ysgol yn cyd chwarae fel un tîm yng ngystadlaethau chwaraeon. Da iawn i dimoedd pêl-droed merched a bechgyn yng nghystadleuaeth yr Urdd ar ddydd Mawrth 18fed o Ebrill. Pob hwyl yn nhwrnamaint y cylch sy'n dod i fyny cyn bo hir

**Gŵyl Pêl-rwyd**
Da iawn i'r ddau dîm pêl-rwyd am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd ar ddydd Iau 27ain o Ebrill. Llongyfarchiadau mawr i dîm A ar lwyddo i ddod yn ail yn ei grŵp.

# Tasg y Tincer


Diolch i bawb gafodd hwyl ar gysylltu'r rhifau bach a chreu llun blodyn – a'i liwio hefyd. Hwrê a da iawn chi! Dyma'r enwau: Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor; Evan Griffiths, Y Borth; Hannah Guy, Caerdydd; Math Roberts, Bont-goch. A diolch i ti Math am y llun hyfryd o'r gwningen a'r wy Pasg, ac i ti Celt am lun y ddraig Tsieineaidd yn dathlu'r Flwyddyn Newydd!



Evan

Dy enw di, Evan, ddaeth o'r het yn gynta. Llongyfarchiadau mawr!

Mae wythnos gwyliau hanner tymor bron â chyrraedd – ac wythnos Eisteddfod yr Urdd, wrth gwrs! Bydd yr ŵyl eleni yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin. Dyma'r tro cynta iddi fod yn y dref honno. Dwi'n siŵr fod sawl un o ardal Y Tincer yn cystadlu – yn dawnsio, chwarae offeryn, sgwennu stori, llefaru, tynnu llun, canu ... pob lwc i bawb! A bydd nifer ohonoch yn ymweld â'r maes yn Llanymddyfri hefyd er mwyn cael blas ar y cyfan, fel y bydda i'n gobeithio gwneud ... ond faint wyddoch chi am ardal yr Eisteddfod? Dyma fro'r porthmyn – edrychwch ar y we am hanes y bobl ddewr yma, ac am hanes Banc yr Eidion Du. Mae digon o chwedlau am yr ardal hefyd, gan gynnwys sawl un gyffrous am Twm Siôn Cati. Ydech chi wedi clywed amdano?



| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Ysgol | |
| Rhif ffôn | Oed |

Y mis hwn, beth am liwio'r pafiliwn crand? Bydd hwn yn llawn sŵn a lliw ar faes yr Eisteddfod! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mehefin. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

Rhif 459 | Mai 2023